Page

# Grantiau Menter Treftadaeth rhwng £250,000 a £5 miliwn

30/01/2024
30/01/2024
See all updates
Ein rhaglen ariannu ar gyfer prosiectau Menter Treftadaeth yn y DU

**Diweddarwyd y dudalen ddiwethaf:** 30 Ionawr 2024. Gweld pob diweddariad.

## Trosolwg

Fel yr ariannwr mwyaf ar gyfer treftadaeth yn y DU, ein gweledigaeth yw i dreftadaeth gael ei gwerthfawrogi, ei gofalu amdani a'i chynnal ar gyfer pawb, nawr ac yn y dyfodol.

### Ein hegwyddorion buddsoddi

Mae pedair egwyddor buddsoddi yn llywio ein holl benderfyniadau grant o dan ein strategaeth 10 mlynedd, Treftadaeth 2033:

- arbed treftadaeth
- gwarchod yr amgylchedd
- cynhwysiant, mynediad a chyfranogiad
- cynaliadwyedd y sefydliad

Rhaid i chi ystyried y pedair egwyddor yn eich cais. Chi sydd i benderfynu a dangos cryfder y ffocws, a phwyslais ar bob egwyddor.

Bydd yr egwyddorion buddsoddi a mentrau strategol yn ein helpu i gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer Treftadaeth 2033.

### Menter Treftadaeth

Mae'r broses Menter Treftadaeth ar gyfer prosiectau sy'n ceisio cyflawni twf economaidd drwy fuddsoddi mewn treftadaeth. Mae wedi'i anelu at sefydliadau cymunedol mentrus a sefydliadau masnachol sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol i'w helpu i achub adeiladau a safleoedd hanesyddol sydd wedi'u hesgeuluso, a'u dychwelyd i ddefnydd cynhyrchiol hyfyw.

Mae ein hymchwil wedi dangos y gall adeiladau hanesyddol ddenu busnesau sy'n fwy cynhyrchiol ac y gallant gynhyrchu mwy o gyfoeth na'r cyfartaledd ar draws yr economi gyfan. Ac eto, mae llawer o adeiladau a safleoedd hanesyddol yn wag ac yn adfeiliedig, heb allu cyflawni eu potensial economaidd.

Cynlluniwyd Menter Treftadaeth i bontio'r bwlch ariannu sy'n atal ased hanesyddol sydd angen ei atgyweirio rhag cael ei ddychwelyd i ddefnydd buddiol a masnachol. Bydd yr achos dros arian grant yn dibynnu ar ddiffyg cadwraeth. Dyma le mae gwerth presennol ased treftadaeth ynghyd â'r gost o ddod ag ef yn ôl i ddefnydd yn fwy na gwerth yr ased ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau.

Trwy gau'r bwlch (h.y. gwrdd â'r diffyg cadwraeth) rydym yn gobeithio annog mwy o gyfranogiad gan y sector preifat gyda llawer o brosiectau Menter Treftadaeth, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol i gyflawni prosiectau sy'n fasnachol hyfyw. Nid yw cynnwys y sector preifat yn orfodol ond fe'i hanogir.

Rydym am i'r prosiectau a ariannwn drwy'r broses Menter Treftadaeth ddangos yn glir pam mae buddsoddi mewn treftadaeth yn dda i fusnes ac yn dda i'r economi.

Gallwch wneud cais am grant rhwng £250,000 a £5 miliwn. Mae dau gam i'r broses ymgeisio.

### Am y canllawiau hyn

Bydd y canllawiau hyn yn eich helpu i benderfynu ai Menter Treftadaeth yw'r dull cywir ar gyfer eich prosiect. Bydd hefyd yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i ddatblygu cais yn y cyfnod datblygu a chyflawni.

Sylwer: Mae'r canllawiau hyn wedi'u hadolygu yn wyneb y strategaeth Treftadaeth 2033 a lansiwyd ym mis Mawrth 2023. Rydym yn bwriadu cynnal adolygiad ehangach o'r canllawiau yn seiliedig ar wersi a ddysgwyd wrth gyflawni'r prosiectau hyn ers lansio'r fenter yn 2017 a byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau erbyn diwedd 2024.

Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â'n canllawiau ymgeisio ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'r Canllaw Derbyn Grant.

## Datganiad o Ddiddordeb

Mae ein proses ymgeisio yn gystadleuol ac ni allwn ariannu pob cais o ansawdd da rydym yn ei dderbyn.

Rydym yn cydnabod y gwaith sy'n mynd i baratoi cais ac felly i'n helpu i hidlo unrhyw brosiectau sy'n annhebygol o dderbyn cyllid, ac er mwyn eich rhwystro rhag paratoi cais llawn yn ddiangen, rhaid i chi gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb yn gyntaf.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a ydym am eich gwahodd i gyflwyno cais cyfnod datblygu ai peidio. Nid yw gwahoddiad i wneud cais yn gwarantu grant gennym ni ond mae'n dangos ein bod yn gweld potensial yn eich cynigion cychwynnol.

Ein nod yw ymateb i'ch Datganiad o Ddiddordeb o fewn 20 diwrnod gwaith o'i dderbyn. Os byddwn yn penderfynu eich gwahodd i wneud cais, byddwn yn cysylltu â chi i drafod y camau nesaf. Bydd gennych 12 mis i gyflwyno cais.

Os nad ydym yn eich gwahodd i wneud cais byddwn yn esbonio ein rheswm. Rhaid i chi aros tri mis cyn cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb newydd.

Rydym hefyd yn darparu ystod o adnoddau i'ch helpu i gynllunio eich prosiect treftadaeth, ac enghreifftiau o brosiectau sydd wedi'u cwblhau'n llwyddiannus. Gallwch ddod o hyd i'r rhain ar ein gwefan.

## Pwy rydym yn ei ariannu

O dan y broses hon, rydym yn ariannu ceisiadau gan:

- sefydliadau nid-er-elw
- partneriaethau rhwng sefydliadau masnachol a nid-er-elw

Os ydych yn gwneud cais fel partneriaeth, bydd angen i chi enwebu prif ymgeisydd. Gall y prif ymgeisydd fod yn sefydliad masnachol neu'n sefydliad nid-er-elw. Dylai'r ymgeisydd arweiniol ddarparu cytundeb partneriaeth wedi'i lofnodi yn dangos cyfranogiad pob partner a sut y caiff y prosiect ei reoli.

Un o nodau allweddol y broses Menter Treftadaeth yw integreiddio buddiannau masnachol a chymunedol o fewn prosiectau adfywio a arweinir gan dreftadaeth. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bartneriaethau. Anogir sefydliadau sector preifat er elw i gymryd rhan a chaniateir iddynt fod yn brif ymgeisydd mewn partneriaeth ag un neu fwy o sefydliadau nid-er-elw.

Efallai y byddwch am greu cyfrwng neu fenter ar y cyd at ddiben arbennig i gyflawni eich prosiect Menter Treftadaeth. Gallwch wneud cais i ni am grant i helpu i greu'r fframwaith cyfansoddiadol cywir (gan gynnwys costau cael cyngor proffesiynol ar strwythurau cyfreithiol a llywodraethu) cyn i chi wneud cais am grant Menter Treftadaeth.

Gall y sector preifat er-elw ymgysylltu â phrosiectau Menter Treftadaeth mewn sawl ffordd, e.e.:

- Trwy ffurfio partneriaeth ddatblygu gyda gr?p nid-er-elw. Yn y modd hwn bydd y cwmni masnachol yn buddsoddi mewn rhai o'r costau cyfalaf ac yn cymryd adenillion o'r incwm rhent a gynhyrchir gan y busnes a feddiannir o fewn y dreftadaeth warchodedig. Bydd y swm a dynnir yn ôl yn elw rhesymol ar eu buddsoddiad.
- Trwy feddiannu a sefydlu eu busnesau mewn adeiladau hanesyddol wedi'u hadnewyddu, talu rhenti'r farchnad i'r sefydliad neu bartneriaeth nid-er-elw sy'n rheoli'r dreftadaeth. Bydd hyn yn cynhyrchu refeniw i'r sector nid-er-elw er mwyn cynnal y dreftadaeth yn y dyfodol yn ogystal â darparu elw rhesymol i'w ail-fuddsoddi yn eu gweithgareddau craidd.
- Trwy ddarparu rhywfaint o'r cyfalaf ochr yn ochr â'n grant ar gyfer cadwraeth ac addasu'r dreftadaeth. Yn yr achosion hyn, mae'r cwmni buddsoddi yn debygol o fod yn berchen ar y dreftadaeth neu fod â phrydles hir arni, a gallai ymrwymo i drefniant prydles gyda sefydliad nid-er-elw.

Mae croeso i bob un o'r dulliau hyn, a bydd eraill yn dod i'r amlwg.

Rydym yn disgwyl cefnogi nifer o brosiectau gan sefydliadau nid-er-elw yn unig, ond mae prosiectau mwy yn debygol o angen ymglymiad y sector preifat er elw er mwyn cynhyrchu'r math o effaith economaidd rydym yn edrych amdano.

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o sefydliadau nid-er-elw rydym yn eu hariannu:

- elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau corfforedig elusennol (SCEau)
- grwpiau cymunedol neu wirfoddol
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
- sefydliadau'r eglwys a ffydd
- cynghorau cymuned/plwyf
- awdurdodau lleol
- sefydliadau sector cyhoeddus eraill, megis amgueddfeydd a ariennir yn genedlaethol

Rydym yn disgwyl i gyfansoddiad yr ymgeisydd arweiniol gynnwys y canlynol (oni bai bod yr ymgeisydd arweiniol yn sefydliad cyhoeddus neu'n sefydliad masnachol):

- enw cyfreithiol a nodau eich sefydliad
- datganiad sy'n atal eich sefydliad rhag dosbarthu incwm neu eiddo i aelodau yn ystod ei oes
- datganiad sy'n cadarnhau, os caiff eich sefydliad ei ddiddymu, bydd asedau'r sefydliad yn cael eu dosbarthu i sefydliad elusennol neu nid-er-elw arall ac nid i aelodau'r sefydliad
- y dyddiad y mabwysiadwyd y cyfansoddiad
- llofnod eich cadeirydd neu berson awdurdodedig arall

Ni allwn ariannu eich sefydliad os nad yw eich cyfansoddiad yn cynnwys yr uchod. Mae'r Comisiwn Elusennau yn darparu arweiniad ar greu dogfen lywodraethol.

Nid oes angen i ni weld eich dogfen lywodraethol os ydych yn:

- sefydliad cyhoeddus; er enghraifft, awdurdod lleol neu brifysgol
- elusen sydd wedi'i chofrestru gyda'r Comisiynau Elusennau ar gyfer Cymru, Lloegr neu Ogledd Iwerddon, neu gyda Rheoleiddiwr Elusennau'r Alban

Rydym yn disgwyl i unrhyw fudd preifat mewn prosiectau Menter Treftadaeth fod yn rhesymol, yn briodol ac yn gymesur ac na ddylai orbwyso buddion i'r dreftadaeth, i'r gymuned leol ac i'r economi.

### Rheolaeth cymhorthdal

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, mae'n bwysig cofio bod ein grant yn dod o gronfeydd cyhoeddus a gallai fod yn ddarostyngedig i Ddeddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Cymhorthdal yw pan fo awdurdod cyhoeddus yn darparu cymorth ariannol o arian cyhoeddus sy'n rhoi mantais economaidd i'r derbynnydd, lle na ellid bod wedi cael cymorth cyfatebol ar delerau'r farchnad. Bydd mwyafrif ein grantiau naill ai ddim yn gymhorthdal neu'n gymhorthdal cyfreithlon sy'n bodloni gofynion Deddf Rheoli Cymhorthdal 2022.

Ein cyfrifoldeb ni yw asesu a yw grant yn gymhorthdal ac mae ein hasesiad rheoli cymhorthdal yn rhan bwysig o'ch cais. Gofynnwn i chi ymgyfarwyddo â'r gofynion allweddol a rhoi unrhyw gymorth y gallai fod ei angen arnom yn rhesymol i gwblhau asesiad rheoli cymhorthdal.

Os yw'r prif ymgeisydd yn sefydliad masnachol rhaid darparu'r canlynol:

- erthyglau cymdeithasu
- datganiad hydaledd
- pan fo'r ased sy'n derbyn cymorth grant yn eiddo i sefydliad masnachol, datganiad sy'n cadarnhau y bydd enillion net sy'n fwy na'r incwm a'r gwariant a ragwelir i sefydlu'r diffyg cadwraeth, ymhen pum mlynedd a naw mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect, yn cael eu rhannu â ni yn unol â chanran ein grant

## Yr hyn yr ydym yn ei ariannu

Rydym yn ariannu prosiectau sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth y DU.

Bydd gan brosiect Menter Treftadaeth y potensial i ddatgloi ased treftadaeth sydd angen buddsoddiad a'i ddefnyddio fel ysgogiad ar gyfer twf economaidd. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn cynnwys atgyweirio ac addasu adeilad neu ased hanesyddol neu gr?p cydlynol o adeiladau neu asedau hanesyddol at ddefnydd terfynol sy'n cynhyrchu incwm masnachol cynaliadwy.

Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sydd wedi'u lleoli o fewn ardaloedd o'r DU sydd dan anfantais economaidd. Nid oes angen lleoli prosiectau o fewn ardaloedd dynodedig o amddifadedd ond byddwn yn gofyn i chi ddiffinio angen economaidd yr ardal a'r gwahaniaeth y bydd eich prosiect yn ei wneud.

Byddwn hefyd yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau sy'n canolbwyntio ar asedau treftadaeth:

- sy'n cael eu hystyried o fod ‘mewn perygl’; er enghraifft, wedi'i nodi ar ‘gofrestr mewn perygl’
- ac sydd wedi'i ddynodi'n ffurfiol; er enghraifft, adeilad rhestredig neu adeilad rhestredig lleol, heneb gofrestredig neu mewn ardal gadwraeth

Byddwn yn ystyried ceisiadau am asedau heb eu dynodi os gallwch ddadlau eu bod naill ai o bwysigrwydd treftadaeth digonol i haeddu dynodiad neu eu bod o werth treftadaeth arbennig i'r gymuned leol.

Bydd ceisiadau am grantiau drwy'r broses Menter Treftadaeth yn cael eu hystyried ar sail y diffyg cadwraeth yn unig ac nid ar anallu'r ymgeisydd i ariannu cynllun sy'n fasnachol hyfyw. Bydd angen i chi roi syniad o'r diffyg cadwraeth trwy gyflwyno gwybodaeth o werthusiad hyfywedd yn y cais cyfnod datblygu. Yna bydd y diffyg cadwraeth yn cael ei gyfrifo drwy baratoi gwerthusiad datblygu, ar ôl dyfarnu grant cyfnod datblygu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran Gwerthusiadau Datblygu.

Mae **prosiect** yn cyfeirio at waith neu weithgaredd:

- sy'n cael ei ddiffinio o'r cychwyn
- sydd heb ddechrau eto
- ni fydd yn cymryd mwy na phum mlynedd i'w gwblhau
- sy'n cyfrannu at gyflawni ein hegwyddorion buddsoddi

Gallwch wneud cais i ni am grant i helpu i baratoi'r gwerthusiad hyfywedd cyn i chi wneud cais am grant Menter Treftadaeth.

Bydd angen atebion wedi'u teilwra ar gyfer prosiectau unigol, ond byddwn yn disgwyl i'r rhai a ariannwn gefnogi defnydd economaidd sy'n creu refeniw digonol i ddarparu enillion rhesymol i'r perchennog/datblygwr a darparu digon o incwm i dalu am gynnal a chadw ac atgyweirio parhaus yr ased treftadaeth unwaith i'r prosiect gael ei gwblhau.

Byddwn yn ystyried prosiectau sy'n canolbwyntio ar dai preswyl neu gymdeithasol lle dangosir mai dyma'r defnydd economaidd hyfyw mwyaf priodol ar gyfer adeilad neu gr?p o adeiladau a lle mae tystiolaeth glir o angen lleol am dai.

Trwy Fenter Treftadaeth gallwn ariannu:

- prynu ased treftadaeth sydd angen buddsoddiad
- gwaith cadwraeth hanfodol, fel atgyweiriadau strwythurol i adeilad hanesyddol
- atgyweiriadau ac addasiadau i ddod ag adeiladau a safleoedd gwag ac adfeiliedig i'w defnyddio eto'n fasnachol hyfyw
- dodrefnu adeilad i lefel sylfaenol (a elwir weithiau yn ‘Gategori A’)

Gallwn ariannu gweithgareddau i helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth, gan gynnwys:

- hyfforddiant mewn cadwraeth, mentora, dysgu, rheoli neu sgiliau digidol i bobl sy'n cyflawni'r prosiect
- gweithgareddau neu wybodaeth sy'n galluogi pobl i ddysgu am dreftadaeth yr adeiladau neu'r safleoedd yn eich prosiect Menter Treftadaeth

Rydym hefyd yn cefnogi gwaith i'ch helpu i ddatblygu a rheoli eich prosiect, fel:

- prisiadau, ffioedd proffesiynol neu gostau sy'n gysylltiedig â chael y caniatâd statudol angenrheidiol
- ymchwil arbenigol i sicrhau bod y gwaith cadwraeth a datblygu yn cael ei lywio'n briodol gan ddealltwriaeth drylwyr o arwyddocâd yr ased treftadaeth a'i anghenion atgyweirio
- paratoi gwerthusiad datblygiad
- cyflogi staff y prosiect

Gallwch wneud cais am swm cyfyngedig o arian ar gyfer gwariant cyfalaf yn ystod datblygiad prosiect i gefnogi, er enghraifft:

- atgyweiriadau brys i atal yr ased rhag dirywio ymhellach wrth gwblhau gwaith cynllunio manwl

- strwythurau dros dro newydd wedi'u dylunio i ganiatáu ‘defnyddiau cyfamser’ yn ystod datblygiad y prosiect

Ni ddylai cyfanswm y gwariant ar gyfer gwaith cyfalaf yn ystod y cyfnod datblygu fel arfer fod yn fwy na 10% o'ch cais grant cyflawni. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr adran Gwaith cyfalaf yn ystod eich cyfnod datblygu.

Mae'r broses asesu yn gystadleuol ac ni allwn ariannu pob un o'r ceisiadau ansawdd uchel a dderbyniwn.

Fel canllaw, mae'r canlynol yn annhebygol o ennill cefnogaeth:

- prosiectau a arweinir gan unigolyn preifat
- prosiectau lle mae'r prif ffocws yn
- barc trefol
- addoldy gweithgar
- prosiectau sy'n cynnwys defnyddiau preswyl na allant ddangos mai defnydd preswyl yw'r ateb mwyaf priodol ar gyfer yr adeilad(au) ac na allant ddangos bod y prosiect yn ymateb i angen lleol neu fod ganddo fuddion cymdeithasol a chymunedol amlwg

Yn yr achosion hyn gall ein Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol fod yn fwy priodol.

Os yw eich prosiect wedi'i gynllunio i fod o fudd i bobl yng **Nghymru**, rhaid i chi wneud defnydd priodol o'r Gymraeg wrth gyflawni eich prosiect.

## Costau uniongyrchol prosiect

Dylai eich cais gynnwys yr holl gostau sy'n codi'n uniongyrchol o ganlyniad i'r prosiect.

Mae costau uniongyrchol prosiect yn cynnwys:

- caffael eiddo a chostau cysylltiedig
- gwaith cyfalaf, gan gynnwys atgyweiriadau, trosi a chostau adeiladu newydd
- costau rheoli datblygiadau
- ffioedd cynllunio a rheoli adeiladu
- costau cyllid
- ymchwil, megis arolygon arbenigol neu ymchwil hanesyddol
- paratoi gwerthusiadau datblygu
- lle bo'n berthnasol, paratoi cynlluniau rheoli a chynnal a chadw, datganiadau gweithgareddau, cynlluniau cadwraeth a chynlluniau busnes
- taliadau/bwrsariaethau ar gyfer hyfforddeion
- swyddi staff newydd, oriau ychwanegol ar gyfer staff presennol neu ymestyn oriau aelod presennol o staff
- ffioedd proffesiynol
- gwerthuso
- hyrwyddo
- costau ychwanegol i'ch sefydliad, megis offer neu rent ychwanegol

Nid yw costau uniongyrchol yn cynnwys:

- staff presennol neu gostau sefydliadol, oni bai eu bod yn cael eu cyfrifo trwy Adennill Costau Llawn
- gweithgareddau sy'n digwydd y tu allan i'r DU
- cyfrifoldebau statudol a/neu gyfreithiol
- hyrwyddo achos neu gredoau sefydliadau gwleidyddol neu ffydd

- TAW y gellir ei adennill
- costau am arian sydd eisoes wedi'i wario

## Adennill Costau Llawn

Os ydych yn fudiad yn y sector gwirfoddol (er enghraifft, efallai bod gennych fwrdd ymddiriedolwyr a bod y sefydliad yn cael ei ariannu gan grantiau a rhoddion), gallwn dalu cyfran o orbenion eich sefydliad drwy adennill costau llawn.

Mae adennill costau llawn yn golygu sicrhau cyllid ar gyfer holl gostau cynnal prosiect. Mae hyn yn golygu y gallwch ofyn am gyllid ar gyfer costau uniongyrchol y prosiect yn ogystal â chyfran gymesur o gostau sefydlog eich sefydliad.

Gall hyn gynnwys costau sy'n cefnogi'r prosiect yn rhannol, ond sydd hefyd yn cefnogi prosiectau neu weithgareddau eraill y mae eich sefydliad yn eu darparu, fel cyflogau staff sy'n gweithio ar draws prosiectau ym meysydd gweinyddu, rheoli, AD, neu godi arian; costau swyddfa fel rhent neu gyfleustodau; a ffioedd cyfreithiol neu archwilio.

Gall cyllid sy'n talu am rai o'ch costau cynnal fod yn bwysig i'ch cynaliadwyedd, felly rydym yn eich annog i ystyried cynnwys hyn yn eich cyllideb yn y categori costau ‘Adennill costau llawn’ os ydych yn gymwys.

Mae canllawiau cydnabyddedig ar gyfrifo'r swm adennill costau llawn sy'n berthnasol i'ch prosiect ar gael gan sefydliadau fel Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

## Eich cyfraniad

Gofynnwn i chi gyfrannu at eich prosiect. Bydd y cyfraniad hwn yn dibynnu ar eich diffyg cadwraeth.

Os ydych yn gwneud cais am grant o hyd at **£1 miliwn** rhaid i chi gyfrannu o leiaf **5%** o'r diffyg cadwraeth.

Os ydych yn gwneud cais am grant datblygu i'ch helpu i ddatblygu eich cais cyfnod cyflawni, rhaid i chi hefyd gyfrannu **5%** o gostau eich cyfnod datblygu.

Os ydych yn gwneud cais am grant o **£1 miliwn** neu fwy, rhaid i chi gyfrannu o leiaf **10%** o'r diffyg cadwraeth.

Os ydych yn gwneud cais am grant datblygu i'ch helpu i ddatblygu eich cais cyfnod cyflawni, rhaid i chi hefyd gyfrannu **10%** o gostau eich cyfnod datblygu.

Dylech ystyried a allai cyllidwyr, sefydliadau neu bobl eraill gefnogi eich prosiect. Bydd hyn yn helpu i ddangos i ni fod pobl a sefydliadau eraill yn gwerthfawrogi eich prosiect a'r buddion rydych yn ceisio eu cyflawni.

Rydym yn disgrifio'r cyfraniad hwn fel ‘cyllid partneriaeth’ a gall fod yn arian parod, ariannu benthyciadau, amser gwirfoddolwyr, cyfraniadau eraill, neu gyfuniad o'r rhain i gyd.

**Cyfraniadau arian:** gall hyn fod o gronfeydd wrth gefn eich sefydliad eich hun, rhodd gan gymwynaswr, grant gan gyllidwr arall neu gymorth codi arian arall fel cyllid torfol.

**Cyfraniadau eraill:** unrhyw beth sydd ei angen arnoch ar gyfer y prosiect nad oes rhaid i chi dalu amdano; er enghraifft llogi ystafell neu offer. Byddwn yn derbyn cyfraniadau di-arian dim ond os ydynt yn gostau prosiect uniongyrchol a allai fod wedi bod yn rhan o gyllideb eich prosiect.

**Amser gwirfoddol:** dyma'r amser y mae gwirfoddolwyr yn ei roi i gefnogi cyflawni eich prosiect. Gallai hyn gynnwys gwaith gweinyddol, clirio safle neu weithredu fel stiward mewn digwyddiad.

Ni ddylech gynnwys costau ar gyfer amser pobl a fydd yn cymryd rhan yn eich gweithgareddau (er enghraifft, pobl sy'n mynychu gweithdy neu'n mynd ar daith dywys). Rydym yn defnyddio cyfradd safonol o £20 yr awr i gyfrifo amser gwirfoddolwyr.

Gellir cynnwys gwerth costau cynyddol rheoli a chynnal a chadw yn y dyfodol am hyd at bum mlynedd ar ôl cwblhad ymarferol fel cyllid partneriaeth.

Dylech ystyried cynnwys swm sy'n gyfartal i'r cynnydd yng ngwerth yr ased treftadaeth fel incwm prosiect, naill ai o gyllid benthyciad neu fel arian parod gan eich sefydliad eich hun.

# Proses ymgeisio

## Gwneud cais

Cyfeiriwch at ein canllawiau ymgeisio a nodiadau cymorth ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol rhwng £250,000 a £10 miliwn am wybodaeth lawn. Sylwch mai uchafswm y grant sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer prosiectau Menter Treftadaeth yw £5 miliwn.

Rhaid i chi gyflwyno ffurflen Datganiad o Ddiddordeb a byddwn yn rhoi gwybod i chi os cewch eich gwahodd i wneud cais am grant Menter Treftadaeth. Mae ceisiadau Menter Treftadaeth yn mynd trwy broses ddwy rownd. Mae hyn er mwyn i chi allu gwneud cais yn gynnar yn y broses o gynllunio eich prosiect a chael syniad a allai eich prosiect fod yn briodol ar gyfer ein hariannu.

Mae dyddiadau cau ar gyfer ceisiadau datblygu a chyflwyno yn chwarterol. Unwaith i ni dderbyn eich cais, byddwn yn ei asesu o fewn 12 wythnos, ac yn dilyn asesiad, bydd yn cael ei neilltuo i'r cyfarfod penderfynu nesaf.

Chi sy'n penderfynu faint o amser sydd ei angen arnoch i ddatblygu eich cynigion ar gyfer y cyfnod cyflawni. Gallwch gymryd hyd at 24 mis, yn dibynnu ar gymhlethdod eich prosiect.

Unwaith i chi gyflwyno eich ffurflen gais nid yw'n bosibl i ni ddychwelyd hon atoch ar gyfer gwaith pellach, nac i ryddhau copi newydd. Mae'n bwysig felly sicrhau eich bod yn hapus gyda'ch atebion cyn i chi gyflwyno eich cais cyfnod datblygu neu gais cyfnod cyflawni i ni.

## Cais cyfnod datblygu

Pwrpas eich cais am grant datblygu yw eich helpu i dalu costau paratoi i wneud y prosiect.  Wrth gyflwyno'r cais hwn, byddwch hefyd yn nodi eich cais grant cyflawni tebygol.

## Cyfnod datblygu

Os caiff eich cais ei gymeradwyo, byddwch yn dechrau eich prosiect cyfnod datblygu.  Dyma pryd y byddwch yn datblygu'r holl wybodaeth, arolygon, cynlluniau a gofynion eraill i'ch galluogi i gyflwyno cais cyfnod cyflawni llawn.

## Cais cyfnod cyflawni

Mae eich cais cyfnod cyflawni yn nodi manylion llawn eich prosiect gan gynnwys costau prosiect a chais terfynol am grant.

### Cyfnod cyflawni

Os dyfernir grant i chi, byddwch yn dechrau eich cyfnod cyflawni ac yn dechrau eich prosiect gan ddefnyddio eich grant cyflawni.

# Cais cyfnod datblygu / Cais cyfnod cyflawni

## Cais cyfnod datblygu

**Gweithgareddau (fel y bo'n briodol)**

**Cynigion amlinellol:**

- Pwy mae eich prosiect yn debygol o'i gynnwys
- Natur ac ystod y gweithgareddau a fydd yn ymgysylltu pobl â threftadaeth

**Gwaith cyfalaf**

**Cynigion amlinellol:**

- Gwybodaeth o'ch **gwerthusiad hyfywedd**, neu ddogfen gyfatebol sy'n rhoi syniad o'r diffyg cadwraeth
- Cynllun cadwraeth drafft
- Dadansoddiad cychwynnol o'r gwaith cyfalaf rydych yn bwriadu ei gyflawni
- Manylion perchnogaeth Eiddo Treftadaeth neu gynlluniau i gyflawni hyn yn y cyfnod cyflawni
- Cynlluniau ar gyfer elfennau pensaernïol hyd at ac yn cynnwys cam gwaith 1 RIBA (neu hen gam gwaith RIBA B)* * Am ragor o wybodaeth am gamau gwaith RIBA, gweler https://www.architecture.com/ knowledge-and-resources/resources-landing-page/riba-plan-of-work
- Cynlluniau ar gyfer elfennau nad ydynt yn bensaernïol, fel dehongliadau neu allbynnau digidol, ar yr hyn sy'n cyfateb i gam gwaith 1 RIBA (neu hen gam gwaith B RIBA)
- Cynlluniau manwl ar gyfer gwaith cyfalaf hoffech ei wneud yn ystod eich cyfnod datblygu, ar yr hyn sy'n cyfateb i gam gwaith 3 RIBA (neu hen gam gwaith D RIBA)

**Egwyddorion buddsoddi**

**Amlinellwch** wybodaeth am sut rydych wedi ystyried y pedair egwyddor buddsoddi yn eich cais am brosiect. Efallai y byddwch yn canolbwyntio mwy ar rai egwyddorion buddsoddi nag eraill. Chi sydd i benderfynu a dangos cryfder y ffocws a'r pwyslais ar bob egwyddor. Gall eich cais am arian datblygu gynnwys cymorth tuag at weithio ar eich ymagwedd at unrhyw un o'r egwyddorion buddsoddi yn fanwl.

**Rheolaeth y prosiect**

- Cytundeb partneriaeth (os yn berthnasol)
- Gwybodaeth **fanwl** am y gwaith y byddwch yn ei wneud yn ystod eich cyfnod **datblygu**
- Gwybodaeth **fanwl** am sut y byddwch yn rheoli eich cyfnod **datblygu**, gan gynnwys briffiau ar gyfer gwaith i'w wneud gan ymgynghorwyr a disgrifiadau swydd newydd
- Amserlen **fanwl** ar gyfer eich cyfnod **datblygu**
- Gwybodaeth **fras** am sut y byddwch yn rheoli eich cyfnod **cyflawni**
- Amserlen **fras** ar gyfer **cyfnod cyflawni**

**Ar ôl i'r prosiect ddod i ben**

Gwybodaeth **fras** am sut y byddwch yn cynnal canlyniadau eich prosiect ar ôl i'r cyllid ddod i ben, gan gynnwys ariannu costau cynnal ychwanegol

**Costau'r prosiect**

- Costau **manwl** ar gyfer eich **cyfnod datblygu**
- Costau **bras** ar gyfer eich **cyfnod cyflawni**

Ffynonellau posibl o gyllid partneriaeth ar gyfer eich cyfnod cyflawni a/neu strategaeth codi arian ar gyfer eich cyfnod datblygu

## Cais cyfnod cyflawni

**Gweithgareddau (fel y bo'n briodol)**

**Cynigion manwl:**

- Datganiad gweithgaredd manwl, yn dangos holl weithgareddau eich prosiect

**Gwaith cyfalaf**

**Cynigion manwl:**

- **Gwerthusiad datblygiad** sy'n sefydlu'r bwlch diffyg cadwraeth
- Cynllun cadwraeth
- Cynlluniau a chynigion manwl ar gyfer gwaith cyfalaf rydych yn bwriadu ei gyflawni
- Cynlluniau manwl ar gyfer elfennau pensaernïol hyd at ac yn cynnwys cam gwaith 3 RIBA (neu hen gam gwaith D RIBA)
- Cynlluniau ar gyfer elfennau nad sy'n bensaernïol, fel dehongliadau neu allbynnau digidol sy'n cyfateb i gam gwaith 3 RIBA (neu hen gam gwaith D RIBA)
- Cadarnhawyd bod manylion perchnogaeth eiddo yn bodloni ein gofynion
- Gwerthusiad annibynnol i gefnogi caffael eiddo treftadaeth

**Egwyddorion buddsoddi**

**Gwybodaeth fanwl** ar sut mae eich prosiect wedi ystyried pob egwyddor buddsoddi, gan nodi sut y bydd y prosiect yn dangos effaith ar gyfer y rhai rydych wedi dewis canolbwyntio arnynt.

**Rheolaeth y prosiect**

- Cytundeb partneriaeth wedi'i ddiweddaru (os yw'n berthnasol)
- Gwybodaeth **fanwl** am sut y byddwch yn rheoli eich cyfnod cyflawni, gan gynnwys briffiau ar gyfer gwaith i'w wneud gan ymgynghorwyr a disgrifiadau swydd newydd
- Amserlen **fanwl** ar gyfer eich cyfnod cyflawni
- **Cynllun busnes prosiect**, os oes angen

**Ar ôl i'r prosiect ddod i ben**

- Gwybodaeth **fanwl** am sut y byddwch yn cynnal canlyniadau eich prosiect ar ôl i'r cyllid ddod i ben, gan gynnwys ariannu costau cynnal ychwanegol
- Gwybodaeth **fanwl** am sut y byddwch yn gwerthuso eich prosiect

- **Cynllun rheoli a chynnal**

**Costau'r prosiect**

- Costau **manwl** ar gyfer eich cyfnod **cyflawni**
- Arwydd y byddwch wedi sicrhau cyllid partneriaeth cyn i chi ddechrau eich cyfnod **cyflawni**

# Eich cyfnod datblygu

Rydym yn deall y gall eich cynnig prosiect newid yn unol â'r ymgynghoriad, y dylunio a'r cynllunio manwl, a'r gwaith arolygu sy'n cael ei wneud yn ystod eich cyfnod datblygu.

## Adolygiad datblygu

Byddwn yn adolygu eich prosiect yn ystod eich cyfnod datblygu i weld sut rydych yn dod ymlaen gyda'ch cais cyfnod cyflawni a dogfennau ychwanegol. Byddwn yn edrych ar eich cynlluniau pan eu bod yn unol â cham gwaith 3 RIBA. Dyma pryd y byddwn hefyd yn adolygu drafft o'ch gwerthusiad datblygiad.

## Canllawiau

Wrth gynllunio eich cyfnod datblygu, fe'ch cynghorir i ddarllen:

- Canllawiau cynllun rheoli a chynnal a chadw
- Canllawiau gwerthusiadau hyfywedd a datblygiad
- Canllawiau cynaliadwyedd amgylcheddol
- Canllawiau gwerthuso
- Sut i gydnabod eich grant
- Canllawiau cynllunio cadwraeth

## Tasgau allweddol y cyfnod datblygu

1. Dylech barhau i weithio drwy'r broses cynllunio cadwraeth, gan fireinio eich dealltwriaeth o'ch treftadaeth a'r cyfleoedd i rannu eich treftadaeth ag eraill fel y bydd eich prosiect yn manteisio'n llawn ar ei photensial wrth fynd i'r afael ag unrhyw risgiau a bygythiadau a nodwyd gennych. Dylech rannu drafft o'ch cynllun cadwraeth gyda ni yn ystod eich cyfnod datblygu.
2. Gwnewch unrhyw **waith cyfalaf** rydych wedi nodi eich bod am ei wneud yn ystod y cyfnod datblygu – h.y. i hwyluso atgyweiriadau brys dros dro neu ddefnyddiau cyfamser.
3. Paratowch **werthusiad datblygu**.
4. Paratowch **gynllun busnes prosiect**, os oes angen.
5. Cynhaliwch unrhyw **arolygon, ymgynghoriadau neu ymchwiliadau** sydd eu hangen i ddatblygu eich cynlluniau a chynigion manwl; er enghraifft, archwiliad mynediad, asesiad o berfformiad amgylcheddol eich adeilad neu ymchwil marchnad deiliad. Ystyriwch a oes unrhyw faterion cyfreithiol yn ymwneud â pherchnogaeth sydd angen eu gwella er mwyn sicrhau eich bod yn bodloni ein gofynion ar gyfer y cyfnod cyflawni.
6. Ymgynghorwch â chynulleidfaoedd newydd a phresennol fel y bo'n briodol yn unol â defnydd arfaethedig yr adeilad. Os yw'n briodol, gallwch ddatblygu **cynllun gweithgaredd** yn nodi sut y byddwch yn datblygu'r cynulleidfaoedd hyn ac yn ymgysylltu pobl â threftadaeth.
7. Datblygwch **amserlen fanwl, costau a llif arian** ar gyfer eich cyfnod cyflawni.
8. Ystyriwch yn fanwl sut y bydd eich prosiect yn **effeithio ar eich sefydliad/partneriaeth** a sut y byddwch yn rheoli'r newid hwn. Efallai bydd angen i chi gynnal adolygiad llywodraethu.

9. Ystyriwch sut y byddwch yn **cynnal yr ased treftadaeth a'i ddefnydd newydd** ar ôl i'r cyllid ddod i ben, a sut y byddwch yn talu unrhyw gostau cynnal ychwanegol. Bydd y wybodaeth hon yn rhan o'ch cynllun rheoli a chynnal, a chynllun busnes eich prosiect, lle bo angen.
10. Ystyriwch sut y byddwch yn gwerthuso eich prosiect, a chasglu data sylfaenol fel y gallwch fesur y gwahaniaeth y mae eich prosiect yn ei wneud.
11. Ystyriwch sut y byddwch yn prynu nwyddau, gwaith a gwasanaethau yn ystod eich cyfnod cyflawni.
12. Ystyriwch sut y byddwch yn cydnabod ac yn hyrwyddo ein grant.
13. Gwnewch y gwaith sydd ei angen i gynhyrchu'r holl ddogfennau ategol perthnasol ar gyfer eich cais cyfnod cyflawni. Mae rhagor o wybodaeth yn yr adran Dogfennau Ategol.

# Sut rydym yn asesu eich cais

Wrth asesu eich ceisiadau cyfnod datblygu a chyfnod cyflawni, byddwn yn ystyried y canlynol:

- a yw eich prosiect yn berthnasol i dreftadaeth y DU
- yr anghenion a'r cyfleoedd y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw
- risgiau a mesurau lliniaru a gynigir gan dîm y prosiect
- pa mor gryf y bydd eich prosiect yn ystyried y pedair egwyddor buddsoddi
- sut bydd effaith eich prosiect yn cael ei chynnal

Gallwn hefyd ystyried materion fel sicrhau lledaeniad daearyddol o'n cyllid.

Os nad yw'ch cais yn amlwg yn ymwneud â threftadaeth y DU neu os nad yw'n ystyried pob un o'r pedair egwyddor buddsoddi, mae'n bosibl y caiff ei wrthod yn gynharach yn ystod y broses asesu a byddwn yn rhoi gwybod i chi.

Dylech ateb pob cwestiwn yn y cais a gwneud yn si?r eich bod yn dweud wrthym am eich gweledigaeth ar gyfer y prosiect. Dyma'r unig adran o'r ffurflen gais sy'n cael ei chyflwyno'n uniongyrchol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Dyma'ch cyfle i egluro beth rydych chi'n gobeithio ei gyflawni a beth fydd gwaddol eich prosiect.

## Ystyried risg

Wrth asesu eich cais, byddwn yn gwneud dyfarniad pwyllog ar y risgiau posibl i'ch prosiect a'r risgiau sefydliadol – a byddwn yn edrych i weld a ydych wedi nodi'r rhain ac wedi dweud wrthym sut y byddwch yn lliniaru yn eu herbyn.

Bydd pob prosiect yn wynebu bygythiadau a chyfleoedd mae angen eu nodi a'u rheoli. Rydym am i chi fod yn realistig ynghylch y risgiau y gall eich prosiect a'ch sefydliad eu hwynebu fel eich bod mewn sefyllfa dda i reoli a chyflwyno'r prosiect yn llwyddiannus.

Dylech hefyd ystyried chwyddiant a chostau wrth gefn yn ofalus yn eich cais.

Y mathau o risgiau a phroblemau y dylech eu hystyried:

- ariannol: er enghraifft, cyfraniad llai o ffynhonnell ariannu arall
- sefydliadol: er enghraifft, prinder pobl sydd â'r sgiliau sydd eu hangen arnoch neu staff sydd eu hangen i weithio ar brosiectau eraill
- economaidd: er enghraifft, cynnydd annisgwyl yng nghost deunyddiau
- technegol: er enghraifft, darganfod lleithder annisgwyl ac eang
- cymdeithasol: er enghraifft, ymatebion negyddol i ymgynghoriad neu ddiffyg diddordeb gan eich cynulleidfa darged

- rheolaeth: er enghraifft, newid sylweddol yn nhîm y prosiect
- cyfreithiol: er enghraifft, rheoli cymhorthdal, neu newidiadau yn y gyfraith sy'n gwneud y prosiect yn anymarferol
- amgylcheddol: er enghraifft, anawsterau wrth ddod o hyd i ffynonellau pren o goedwigoedd a reolir yn dda

### Sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud

Bydd eich cais yn cystadlu â phrosiectau eraill yn y cyfnod datblygu a chyflawni. Mae'n bwysig nodi nad yw dyfarniad grant cyfnod datblygu yn gwarantu y byddwch yn derbyn dyfarniad grant cyfnod cyflawni.

Pwyllgorau yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban, Cymru a Lloegr sy'n penderfynu ar geisiadau gyda chais datblygu a chyflawni ar y cyd rhwng £250,000 a £5 miliwn.

Mae angen 12 wythnos arnom i asesu eich cais. Unwaith i'ch cais gael ei asesu, bydd yn mynd i gyfarfod arferol nesaf y pwyllgor perthnasol.

Mae ein penderfynwyr yn defnyddio eu crebwyll i ddewis pa geisiadau i'w cefnogi, gan ystyried ein hegwyddorion buddsoddi a chryfder y prosiect arfaethedig.

## Derbyn grant

Cyfeiriwch at ein canllawiau ymgeisio ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o £250,000 i £10 miliwn am wybodaeth lawn.

## Telerau grant amrywiol ar gyfer prosiectau Menter Treftadaeth

### Hyd y contract

Bydd telerau'r grant yn para o ddechrau'r prosiect tan **10 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect**, gan gynnwys os yw'ch prosiect yn ymwneud â phrynu tir neu adeilad.

Os ydych, ar ôl cwblhau'r prosiect, yn dymuno cael gwared ar unrhyw adeilad a oedd yn rhan o'r prosiect, rhaid i chi ofyn am ein caniatâd. Os gwerthir yr ased â chymorth grant byddwn yn disgwyl rhannu enillion y gwerthiant. Bydd yr union swm byddwn yn disgwyl ei ad-dalu yn dibynnu ar dri pheth:

1. A yw gwerth y gwerthiant yn fwy na gwerth ein grant gwreiddiol ai peidio. Sail yr ad-daliad fydd y ffigwr uwch o naill ai gwerth y gwerthiant, neu werth y grant.
2. Os bydd gwerth y gwerthiant yn fwy na'n grant, byddwn yn disgwyl ad-daliad sy'n cyfateb i'r gyfran o gyfanswm costau'r prosiect a gyfrannwyd gennym.
3. Yr amser sydd wedi mynd heibio ers cwblhau'r prosiect. Byddwn yn gweithredu graddfa symudol sefydlog ar gyfer ad-daliadau, sy'n gostwng dros amser.

| Blwyddyn y contract | Ad-daliad |
|---|---|
| 0-6 | Hyd at 100% |
| 6-7 | Hyd at 80% |
| 7-8 | Hyd at 60% |
| 8-9 | Hyd at 40% |
| 9-10 | Hyd at 20% |

Yn gryno:

- Os gwerth y gwerthiant > gwerth y grant, ad-daliad = gwerth y gwerthiant x ein % o gostau'r prosiect x graddfa symudol yn seiliedig ar flynyddoedd ers cwblhau'r prosiect.
- Os yw gwerth y grant > gwerth y gwerthiant. ad-daliad = gwerth y grant x graddfa symudol yn seiliedig ar flynyddoedd ers cwblhau'r prosiect.

### Uchafswm grant

Uchafswm y grant y gallwch wneud cais amdano yw 90% o'r diffyg cadwraeth, ynghyd â chyfraniad tuag at gostau gweithgaredd. Mae enghraifft o sut i amcangyfrif y diffyg cadwraeth wedi'i nodi yn yr adran Cyfrifo'r Diffyg Cadwraeth.

### Elw'r datblygwr

Rydym yn caniatáu i ddatblygwyr, yn y sector nid-er-elw a'r sector preifat, wneud elw rhesymol ar eu buddsoddiad. Yr uchafswm a ganiateir yw 15% o'r costau cyfalaf, gan gynnwys ffioedd, arian wrth gefn a chwyddiant. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn yr adran Elw'r datblygwr.

### Gwaith cyfalaf brys a defnyddiau cyfamser yn ystod y cyfnod datblygu

Fel y nodir uchod yn yr adran ‘Gwaith cyfalaf yn ystod eich cyfnod datblygu’ isod, gallwch wneud cais am swm cyfyngedig o grant i gefnogi gwariant cyfalaf yn ystod cyfnod datblygu eich prosiect. Fel arfer ni ddylai'r swm rydych yn gwneud cais amdano fod yn fwy na 10% o'ch cais am grant cyfnod cyflawni disgwyliedig.

### Taliadau llog ar fenthyciadau cyfalaf

Os bu'n rhaid i'ch sefydliad gymryd benthyciad fel cyfraniad cyllid partneriaeth i'r prosiect hwn, gellir cynnwys llog y benthyciad fel cost gymwys yn nhabl costau eich prosiect.

## Gwerthusiadau datblygiadau

### Diffyg cadwraeth

Mae'r broses Menter Treftadaeth wedi'i greu i helpu i bontio'r bwlch ariannu sy'n atal ased hanesyddol sydd angen ei atgyweirio rhag cael ei ddychwelyd i ddefnydd buddiol ac economaidd hyfyw. Bydd yr achos dros arian grant yn dibynnu ar ddiffyg cadwraeth. Dyma le mae gwerth presennol ased treftadaeth a'r gost o ddod ag ef yn ôl i ddefnydd yn fwy na gwerth yr ased ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau. Cyfrifir y diffyg cadwraeth trwy baratoi gwerthusiad datblygiad.

Mae enghraifft o gyfrifiad diffyg cadwraeth isod.

1. Dylid defnyddio'r diffyg cadwraeth a'r ffigurau costau i lenwi tabl costau eich prosiect.
2. Dylid cynnwys swm y cynnydd yng ngwerth yr ased fel

cyfraniad arian parod yn nhabl incwm y cyfnod cyflawni. Dylai hwn fod yn gofnod ar wahân.

### Gwerthusiad datblygiad

Mae gwerthusiad datblygiad yn gyfrifiad llif arian ariannol sy'n ystyried yr holl wariant ac incwm yn y broses ddatblygu. Yn syml, mae'n weithdrefn gyfrifyddu sy'n cael ei defnyddio'n eang ar draws y diwydiant eiddo ac adeiladu i asesu'r:

- hyfywedd (proffidioldeb) cynlluniau datblygu
- bwlch ariannu lle nad oes unrhyw broffidioldeb yn bodoli
- graddau o risg
- gwerth gweddilliol yr adeilad neu'r tir cyn ei ddatblygu

Dylai pris prynu'r adeilad neu'r safle fod gwerth y farchnad agored, os oes angen trafodiad o'r fath fel rhan o'r broses ddatblygu.

Dyma'r broses ar gyfer asesu hyfywedd cynllun datblygu: mae holl gostau ymgymryd â'r datblygiad, yn ogystal ag elw rhesymol i'r datblygwr (gweler pwynt 3 isod), yn cael eu tynnu o werth marchnad y datblygiad gorffenedig (yn seiliedig ar y gwerth gwerthiant cyfalaf tebygol neu incwm rhent ac arenillion buddsoddiad). Y swm sy'n weddill yw gwerth gweddilliol yr adeilad neu'r tir.

Os oes gan y swm hwn werth positif, mae'n bosibl y bydd y cynllun yn hyfyw ac nid oes angen cyllid grant. Ar y llaw arall, os yw'r swm hwn yn negyddol - os oes bwlch ariannu - gellir cyfiawnhau grant, ond dim ond i dalu'r diffyg cadwraeth (h.y. digon i ddod â'r gwerth gweddilliol i sero) ynghyd â chostau rheoli a chynnal a chadw'r adeilad neu'r safle dros gyfnod rhesymol (e.e. pum mlynedd).

Ond gall cyfrifo gwerth marchnad y datblygiad gorffenedig ac amcangyfrif yr holl gostau datblygu fod yn gymhleth iawn. Gall nifer o newidynnau effeithio ar y cyfrifiadau, gan gynnwys ymhlith pethau eraill:

- cyfradd chwyddiant
- amrywiadau mewn prisiau yn y marchnadoedd gwerthu a rhentu eiddo
- cost ac argaeledd cyllid
- gweithgareddau datblygu eraill yn yr ardal, gan gynnwys darparu seilwaith

Felly, er bod amryw o offer perchnogol i helpu gyda pharatoi gwerthusiadau datblygiad, fe'ch cynghorir yn gryf i geisio cymorth proffesiynol gan brisiwr cofrestredig RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) neu'ch partner datblygwr eich hun. Gallwch gynnwys costau'r gwaith hwn yn eich cais cyfnod datblygu.

## Elw'r datblygwr

Er mwyn annog buddsoddiad masnachol mewn atgyweirio a datblygu adeiladau a safleoedd hanesyddol, caniateir elw rhesymol i ddatblygwyr ar eu buddsoddiad. Dylid cynnwys yr ‘elw’ hwn fel cost prosiect wrth gyfrifo'r gwerthusiad datblygu a llenwi tabl costau eich prosiect. Bydd maint yr elw, a'r ffordd y caiff ei gyfrifo, yn cael ei asesu yn ôl nifer o ffactorau, gan gynnwys:

- maint y risg sy'n cael ei chymryd
- natur y datblygiad (hyd, cymhlethdod, lleoliad)
- sefydlogrwydd y farchnad darged

Er mwyn sicrhau bod budd cyhoeddus yn drech na'r potensial ar gyfer elw preifat, ni fyddwn yn derbyn elw sy'n fwy na 15% o elw ar gost cyflawni'r prosiect hyd yn oed pan fo'r risg i'r datblygwr yn uchel. Nid ydym yn gwahaniaethu rhwng y gwahanol sefydliadau sy'n rhan o'r bartneriaeth prosiect. Caniateir cyfradd adennill resymol ar gyfer pob partner prosiect, boed yn sefydliad nid-er-elw neu'n sefydliad preifat er-elw.

## Asesiad diwydrwydd dyladwy

Bydd angen i chi roi gwerthusiad datblygiad i ni mewn pryd ar gyfer eich adolygiad cam 2 gwaith RIBA. Fel rhan o'n proses asesu, bydd eich gwerthusiad datblygiad yn destun craffu proffesiynol er mwyn canfod:

- a yw lefel y grant a geisir yn briodol (fel y'i pennir gan y cyfrifiad diffyg cadwraeth)
- a yw graddau enillion y datblygwr yn deg ac yn rhesymol

Byddwn yn cysylltu â chi i drafod eich cais cyfnod cyflawni os oes gennym unrhyw gwestiynau am y cyfrifiadau yn eich gwerthusiad datblygiad. Efallai y byddwn yn gofyn i chi addasu eich cais am grant cyfnod cyflawni, neu efallai y byddwn yn gwrthod eich cais os na fyddwn yn derbyn eich gwerthusiad datblygiad, felly fe'ch anogir yn gryf i gael cymorth proffesiynol priodol i'w baratoi.

## Gwerthusiad hyfywedd

Mae'n ofynnol i chi gyflwyno gwerthusiad hyfywedd gyda'ch cais cyfnod datblygu. Datganiad cymharol fyr yw hwn sy'n cynnwys asesiad byr o'ch adeilad neu safle treftadaeth, ei gyflwr a'r opsiynau ar gyfer defnyddiau newydd posibl. Dylai hefyd ystyried yn fras gostau atgyweirio ac addasu, yn ogystal â darparu amcangyfrif rhesymol o werth marchnadol yr ased treftadaeth pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau. Dylai'r gwerthusiad hyfywedd gynnwys digon o wybodaeth i wneud achos argyhoeddiadol dros ddiffyg cadwraeth a'r angen am grant. Nid oes angen cyfrifiadau cost manwl ar yr adeg hon.

Efallai y byddwch yn penderfynu bod angen cyngor proffesiynol arnoch i'ch helpu i baratoi eich gwerthusiad hyfywedd. Gallwch wneud cais i ni am grant i helpu i dalu costau paratoi eich gwerthusiad hyfywedd. Mae sefydliadau eraill hefyd yn cynnig grantiau ar gyfer y math hwn o waith, er enghraifft y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol.

## Enghraifft cyfrifiad diffyg cadwraeth

Mae enghraifft o sut i amcangyfrif y diffyg cadwraeth wedi'i gynnwys yn y tabl canlynol:

*Mae'r canrannau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion enghreifftiol yn unig. Ceisiwch gyngor proffesiynol ar ganrannau priodol i'w cynnwys.

| Cyfalaf | Gwerthoedd £ | Cyfansymiau £ | Gwiriad is-gyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| **Gwerth cychwynnol yr eiddo** | 50,000 | AMH | AMH |
| **Cadwraeth** | AMH | 1,400,000 | AMH |
| **Adeilad newydd** | AMH | 120,000 | AMH |
| **Gwaith cyfalaf arall** | AMH | 18,000 | AMH |
| **Offer** | AMH | 36,000 | AMH |
| **Cyllid** | AMH | 80,000 | AMH |
| **Is-gyfanswm** | AMH | AMH | 1,654,000 |
| **Ffioedd ar 15%** | AMH | 248,100 | AMH |
| **Arian wrth gefn ar 10%** | AMH | 190,210 | AMH |
| **Chwyddiant ar 5% o'r cyfalaf** | AMH | 91,105 | AMH |
| **Is-gyfanswm (costau cyfalaf)** | AMH | AMH | 2,183,415 |
| **Enillion datblygwr ar 10% (o gostau cyfalaf, ffioedd, arian wrth gefn a chwyddiant)** | AMH | 218,341 | AMH |
| **Cyfanswm costau cyfalaf** | 2,401,757 | AMH | AMH |
| **Gwerth terfynol yr eiddo (ar ôl cwblhau'r gwaith)** | 650,000 | AMH | AMH |

| Cyfalaf | Gwerthoedd £ | Cyfansymiau £ | Gwiriad is-gyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| **Cynnydd mewn gwerth (gwerth terfynol - gwerth cychwynnol)** | 600,000 | AMH | AMH |
| **Diffyg cadwraeth (cyfanswm costau cyfalaf – cynnydd mewn gwerth)** | 2,401,757 – 600,000 | 1,801,757 | AMH |
| **Cais am grant (uchafswm o 90% o'r diffyg cadwraeth)** | AMH | **1,621,581** | AMH |

## Tablau costau prosiect

Gan ddefnyddio'r ffigurau o'r enghraifft cyfrifo diffyg cadwraeth, bydd angen i chi gwblhau ein tablau costau fel a ganlyn:

**Costau cyfalaf y cyfnod cyflawni**

| Teitl y gost | Disgrifiad | Cost £ | TAW £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| **Gwaith atgyweirio a chadwraeth** | Gwaith atgyweirio<br>Atgyweiriadau gwaith maen<br>Plastro calch | 1,166,666 | 233,334 | 1,400,000 |
| **Gwaith adeiladu newydd** | Gosod fel gweithle hyblyg | 60,000 | 0 | 60,000 |
| **Gwaith adeiladu newydd** | Estyniad i ddarparu mynediad | 60,000 | 0 | 60,000 |
| **Gwaith cyfalaf arall** | Dehongliad digidol | 15,000 | 3,000 | 18,000 |
| **Arall (gan gynnwys costau cyllid yma os cytunwyd arnynt gyda'ch Rheolwr Buddsoddi)** | Uchafswm o 5 mlynedd o gostau ariannu benthyciad o £600,000 | 80,000 | 0 | 80,000 |
| **Ffioedd proffesiynol sy'n ymwneud â'r pethau uchod** | Ffioedd 15% | 206,750 | 41,350 | 248,100 |
| **Ffioedd proffesiynol yn ymwneud a'r pethau uchod** | Elw datblygwyr ar 10% o gostau cyfalaf, ffioedd, chwyddiant ac arian wrth gefn) | AMH | AMH | 218,342 |
| **Cyfanswm y costau** | AMH | AMH | AMH | **2,120,442** |

**Costau gweithgaredd y cyfnod cyflawni**

| Teitl y gost | Disgrifiad | Cost £ | TAW £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| **Costau staff newydd** | AMH | AMH | 0 | 0 |
| **Hyfforddiant ar gyfer staff** | AMH | 10,000 | 0 | 10,000 |
| **Lleoliadau hyfforddi â thâl** | AMH | AMH | 0 | 0 |
| **Hyfforddiant ar gyfer gwirfoddolwyr** | Hyfforddi am 1 flwyddyn | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Teithio ar gyfer staff** | AMH | AMH | 0 | 0 |

| Teitl y gost | Disgrifiad | Cost £ | TAW £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| **Teithio a threuliau ar gyfer gwirfoddolwyr** | AMH | AMH | 0 | 0 |
| **Offer a deunydd** | Adnoddau addysgiadol | 5,000 | 0 | 5,000 |
| **Arall** | Offer diogelwch, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus | 5,000 | 500 | 5,500 |
| **Ffioedd proffesiynol sy'n ymwneud â'r pethau uchod** | AMH | AMH | 0 | 0 |
| **Cyfanswm y costau** | AMH | 25,000 | 500 | **25,500** |

**Cyfnod cyflawni – costau eraill**

| Teitl y gost | Disgrifiad | Cost £ | TAW £ | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|---|
| **Wrth gefn*** | Wedi'i gyfrifo ar 10% ar waith cyfalaf. 0% costau eraill | AMH | AMH | 192,760 |
| **Chwyddiant*** | Wedi'i gyfrifo ar 5% ar waith cyfalaf, costau gweithgaredd a ffioedd | AMH | AMH | 92,380 |
| **Costau rheoli a chynnal a chadw uwch (uchafswm o 5 mlynedd)** | Costau ychwanegol am 5 mlynedd | 50,000 | AMH | 50,000 |
| **Cyfanswm costau darparu** | AMH | AMH | 0 | **2,481,082** |

*Rhoddir y canrannau ar gyfer arian wrth gefn a chwyddiant at ddibenion cyfrifo yn unig ac mae angen eu hasesu ar adeg gwneud y cais.

**Incwm cyfnod cyflawni**

| Ffynhonnell ariannu | Disgrifiad | Wedi'i sicrhau? | Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| **Codi arian/cronfeydd wrth gefn (nodwch y ffynonellau a restrir yn y ffurflen gais)** | Cyfraniad yr ymgeisydd ac incwm codi arian | Ie | 184,501 |
| **Arian parod – cynnydd yng ngwerth eiddo. Bydd angen i chi nodi ar wahân amcangyfrif o werth uwch eich eiddo ar ddiwedd y prosiect fel cyfraniad arian parod, p'un a ydych wedi sicrhau benthyciad ai peidio.** | Benthyciad 5 mlynedd yn erbyn cynnydd yng ngwerth yr eiddo (Prisiad terfynol – prisiad cychwynnol) | Na | 600,000 |
| **Mwy o reolaeth a chynnal a chadw** | Costau rheoli a chynnal a chadw ychwanegol am 5 mlynedd | Ie | 50,000 |
| **Cais am grant (67%)** | 90% o'r diffyg cadwraeth + 100% o'r costau gweithgaredd | AMH | **1,646,581** |
| **Cyfanswm incwm** | AMH | AMH | **2,481,082** |

**Crynodeb ariannol y cyfnod cyflawni**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm y costau cyflawni | £2,481,082 |
| Cyfanswm incwm cyflawni | £2,481,082 |
| Cais grant cyflawni (wedi'i dalgrynnu i lawr i'r £100 agosaf) | £1,646,581 |
| Canran grant cyflawni | 67% |

# Gwaith cyfalaf yn ystod eich cyfnod datblygu

O dan y broses Menter Treftadaeth, gallwch wneud cais am swm cyfyngedig o grant i gefnogi gwariant cyfalaf yn ystod cyfnod datblygu eich prosiect. Fel arfer ni ddylai'r swm rydych yn gwneud cais amdano fod yn fwy na 10% o'ch cais am grant cyfnod cyflawni disgwyliedig.

Byddwn ond yn ystyried ariannu gwaith cyfalaf yn ystod y cyfnod datblygu os ydych eisoes yn berchen ar yr adeilad neu'r safle a lle caiff gwaith ei ddosbarthu fel naill ai:

- atgyweiriadau brys, neu
- ddefnydd cyfamser

Bydd angen i chi ddarparu dadansoddiad llawn o waith cyfalaf yn y daenlen costau fanwl a gyflwynwyd gyda'ch cais cyfnod datblygu.

## Atgyweiriadau brys

Mae atgyweiriadau brys yn cyfeirio at waith sy'n angenrheidiol i atal dirywiad pellach yr ased treftadaeth yn ystod cyfnod datblygu'r prosiect (hy hyd at uchafswm o ddwy flynedd). Gall hyn gynnwys:

- gwaith sefydlogi brys, fel cynnal gwaith maen sy'n cwympo neu osod to dros dro
- gwaith arall i sicrhau bod adeilad yn ddiogel rhag y tywydd, fel trwsio cwteri a phibellau d?r sydd wedi'u blocio neu wedi torri, a chau ffenestri ac agoriadau eraill dros dro
- mesurau i wella diogelwch y safle, fel ffensio a gosod rhwyllau diogelwch perchnogol
- clirio sbwriel a malurion lle mae'n fygythiad sylweddol i sefydlogrwydd y safle. Mae'n bosibl y bydd angen cymorth gweithiwr proffesiynol priodol arnoch i sicrhau bod y gwaith wedi'i bennu'n rhesymol a'i fod mor fach â phosibl.

## Defnyddiau cyfamser

Mae defnyddiau cyfamser yn cyfeirio at ddefnydd dros dro o adeiladau neu dir gwag at ddiben buddiol tra bod gwaith cynllunio a datblygu yn cael ei gynnal i ddod â nhw yn ôl i ddefnydd masnachol. Mae ein hymchwil wedi dangos ei bod yn arbennig o bwysig i fentrau adfywio sy'n cael eu harwain gan y gymuned i gynnal momentwm a chefnogaeth wrth ddatblygu prosiectau.

Bydd ein cefnogaeth ar gyfer gwaith cyfalaf yn ystod eich cyfnod datblygu yn eich galluogi i gyflwyno defnyddiau cyfamser yn, ar neu gerllaw eich safle treftadaeth (fel caffi, siop, man arddangos neu leoliad diwylliannol) wrth i chi ddatblygu eich prif brosiect. Trwy'r defnyddiau hyn, gellir creu a chynnal momentwm mewn amrywiaeth o ffyrdd dychmygus, fel defnyddio 'pensaernïaeth dros dro' i ddarparu strwythurau dros dro cost isel neu ofodau sy'n darparu cartrefi i fusnesau newydd am gyfnod interim. Mae mentrau fel hyn hefyd yn cynyddu amlygrwydd eich prosiect, gan annog mwy o bobl o'ch cymuned leol i gymryd rhan. Gall y math hwn o ymagwedd arloesol eich helpu i gynyddu eich siawns o sicrhau dyfodol hyfyw a chynaliadwy i'ch treftadaeth warchodedig.

# Geirfa

**Gweithgareddau:** Rydym yn disgrifio unrhyw beth yn eich prosiect nad yw'n waith cyfalaf fel ‘gweithgareddau’. Yn aml bydd hyn yn weithgareddau i ymgysylltu pobl â threftadaeth.

**Cytundeb cefn wrth gefn:** Gall telerau cytundebau cefn wrth gefn amrywio, ond yn gyffredinol maent yn golygu bod awdurdod lleol yn defnyddio ei bwerau prynu gorfodol i gaffael eiddo a'i waredu i ddatblygwr (e.e. Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau) yn gyfnewid am ymrwymiad y datblygwr i ddatblygu (ar draul y datblygwr) ac indemnio costau'r awdurdod lleol.

**Gwaith cyfalaf:** Mae gwaith cyfalaf yn cynnwys unrhyw waith corfforol fel cadwraeth, gwaith adeiladu newydd, creu allbynnau dehongli neu ddigidol, neu brynu eitemau neu eiddo.

**Diffyg cadwraeth:** Dyma le mae gwerth presennol ased treftadaeth ynghyd â'r gost datblygu yn fwy na gwerth yr ased ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau. Ar gyfer ceisiadau Menter Treftadaeth, defnyddir y diffyg cadwraeth i gyfrifo swm y grant y gofynnir amdano.

**Cynllun cadwraeth:** Mae'r ddogfen hon yn eich helpu i ddeall pam fod eich treftadaeth yn bwysig ac i bwy. Mae'n eich helpu i gael golwg gyffredinol, ac mae'n gosod fframwaith o bolisïau a fydd yn eich helpu i wneud penderfyniadau ynghylch sut i ofalu am eich treftadaeth tra'n sicrhau ei bod yn parhau i gael ei defnyddio, ei mwynhau a'i gwneud yn hygyrch.

**Cais grant cyflawni:** Swm yr arian rydych yn gofyn amdano gennym ni tuag at eich cyfnod cyflawni.

**Cyfnod cyflawni:** Dyma pryd y byddwch yn cyflawni eich prosiect.

**Gwerthusiad datblygiad:** Yn syml, cyfrifiad llif ariannol yw'r ddogfen hon sy'n ystyried yr holl wariant ac incwm yn y broses ddatblygu.

**Cais grant datblygu:** Y swm o arian rydych yn gofyn amdano gennym ni tuag at eich cyfnod datblygu.

**Cyfnod datblygiad:** Dyma pryd y byddwch yn datblygu eich cais cyfnod cyflawni.

**Cynnyrch digidol:** Rydym yn defnyddio'r term ‘cynnyrch digidol’ i gyfeirio at yr hyn rydych yn ei greu yn eich prosiect mewn fformat digidol sydd wedi'i gynllunio i roi mynediad i dreftadaeth a/neu i helpu pobl i ymgysylltu â threftadaeth a dysgu amdani. Mae enghreifftiau yn cynnwys casgliad o ddelweddau digidol neu ffeiliau sain, adnodd neu arddangosfa treftadaeth ar-lein, neu ap ffôn clyfar.

**Costau uniongyrchol prosiect:** Yr holl gostau a dynnir yn uniongyrchol o ganlyniad i'ch prosiect.

**Egwyddorion buddsoddi:** Y pedair egwyddor sy'n llywio ein holl benderfyniadau o dan Dreftadaeth 2033, ein strategaeth 10 mlynedd. Rhaid i chi gymryd pob un o'r pedair egwyddor buddsoddi i ystyriaeth yn eich cais am brosiect. Chi sydd i benderfynu a dangos cryfder y ffocws a'r pwyslais ar bob egwyddor.

**Prif ymgeisydd:** Os ydych yn gwneud cais fel partneriaeth, bydd angen i chi enwebu prif ymgeisydd a fydd yn cyflwyno'r cais ar ran sefydliadau eraill yn y bartneriaeth. Os bydd y cais yn llwyddiannus, bydd y prif ymgeisydd yn rhwym i delerau'r grant ac yn derbyn taliadau grant.

**Cynllun rheoli a chynnal a chadw:** Mae'r ddogfen hon yn nodi pa waith cynnal a chadw a rheolaeth sydd angen i chi ei wneud, pryd y byddwch yn ei wneud, a phwy fydd yn ei wneud. Mae hefyd yn dweud wrthym faint y bydd yn ei gostio a sut y byddwch yn monitro'r gwaith.

**Defnyddiau cyfamser:** Diffinnir defnyddiau cyfamser fel defnydd dros dro o adeiladau neu dir gwag at ddiben o fudd cymdeithasol tra bod gwaith cynllunio a datblygu yn mynd rhagddo i'w hailddefnyddio at

ddefnydd masnachol.

**Allbwn:** Allbynnau yw'r hyn y bydd eich prosiect yn cynhyrchu, fel llyfr, arddangosfa newydd, gweithdy, neu waith cadwraeth i adeilad.

**Cyllid partneriaethau:** Dyma sut rydym yn disgrifio eich cyfraniad at eich prosiect. Gall gynnwys arian, cyfraniadau eraill ac amser gwirfoddolwyr.

**Pensaernïaeth dros dro:** Mae'r term hwn yn cyfeirio at adeiladau a gofodau newydd dros dro o fewn adeiladau presennol sy'n gymharol gyflym a syml i'w hadeiladu, yn fforddiadwy, yn addasadwy ac wedi'u dylunio ar gyfer defnydd tymor byr yn unig. Yn gyffredinol maent yn defnyddio deunyddiau rhad, fel pren haenog a phren meddal, i greu mannau i'w defnyddio.

**Cynllun busnes prosiect:** Mae'r ddogfen hon yn nodi agweddau ariannol a threfniadol eich prosiect. Nid yw hyn yr un peth â chynllun busnes eich sefydliad.

**Cwblhad prosiect:** Dyma'r dyddiad y byddwn yn gwneud ein taliad terfynol ac rydym yn fodlon bod dibenion cymeradwy'r grant wedi'u bodloni. Bydd telerau safonol y grant yn para am 10 mlynedd o'r dyddiad hwn.

**Cyfnod gwaith RIBA:** Cynllun amlinellol rhifiadol o 1 i 7 sy'n trefnu'r broses o reoli a dylunio prosiectau adeiladu a gweinyddu contractau adeiladu yn nifer o gamau gwaith, fel sy'n cael ei ddiffinio gan RIBA (Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain). Defnyddiwyd cynllun yn nhrefn yr wyddor yn flaenorol (o A i L).

**Cerbyd pwrpas arbennig (SPV):** Mae SPV yn endid cyfreithiol a sefydlwyd am gyfnod dros dro at ddiben penodol. Er enghraifft, efallai y bydd Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau am sefydlu sefydliad newydd mewn partneriaeth â chwmni sector preifat, dim ond er mwyn cyflawni prosiect sy'n dod ag adeilad hanesyddol yn ôl i ddefnydd cynhyrchiol. Gallai'r sefydliad newydd fod yn SPV.

**Gwerthusiad hyfywedd:** Datganiad cymharol fyr sy'n cynnwys asesiad byr o'ch adeilad neu safle treftadaeth, ei gyflwr a'r opsiynau ar gyfer defnyddiau newydd posibl. Dylai hefyd ystyried yn fras gostau atgyweirio ac addasu, yn ogystal â darparu amcangyfrif rhesymol o werth marchnad y datblygiad gorffenedig.

## Cysylltwch â ni

Os oes gennych gwestiwn am ein cyllid, cysylltwch.

Os oes angen cymorth pellach gyda'ch cais, mae rhagor o wybodaeth am y mathau o gymorth a chefnogaeth y gallwn eu darparu yma.

Os hoffech wybod am ein proses gwyno, ewch i'n tudalen Gwasanaeth Cwsmer.

## Diweddariadau i'r canllaw

Byddwn yn adolygu'r canllaw yn rheolaidd ac yn ymateb i adborth defnyddwyr. Rydym yn cadw'r hawl i wneud newidiadau yn ôl yr angen. Byddwn yn cyfathrebu unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl drwy'r dudalen we hon.

# Canllaw gwerthuso hyfywedd a datblygiad Menter Treftadaeth

30/01/2024
30/01/2024
See all updates
Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unigolion sy'n gwneud cais am grantiau drwy'r rhaglen Menter Treftadaeth. Mae'n egluro pwrpas gwerthusiadau hyfywedd a datblygiad a bydd yn eich helpu i baratoi neu gomisiynu'r gwerthusiadau hyn. Dylid ei ddarllen ar y cyd â phrif ganllawiau cais Menter Treftadaeth.

## Cyfwyniad

Mae'r rhaglen Menter Treftadaeth ar gyfer prosiectau sy'n ceisio sicrhau twf economaidd drwy fuddsoddi mewn treftadaeth. Mae'n bennaf ar gyfer sefydliadau cymunedol a phartneriaethau mentrus rhwng sefydliadau masnachol a sefydliadau cymunedol, i'w helpu i achub adeiladau a safleoedd hanesyddol sydd wedi'u hesgeuluso a'u dychwelyd i ddefnydd cynhyrchiol hyfyw.

Cynlluniwyd Menter Treftadaeth i bontio'r bwlch ariannu sy'n atal ased hanesyddol sydd angen ei atgyweirio rhag cael ei ddychwelyd i ddefnydd buddiol a masnachol. Bydd yr achos dros gyllid grant yn dibynnu ar fodolaeth **diffyg cadwraeth**. Dyma le mae gwerth presennol ased treftadaeth ynghyd â chost dod ag ef yn ôl i ddefnydd yn fwy na gwerth yr ased ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau.

Drwy gau'r bwlch (cwrdd â'r diffyg cadwraeth) rydym yn gobeithio annog mwy o gyfranogiad gan y sector preifat mewn llawer o brosiectau Menter Treftadaeth, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymunedol i gyflawni prosiectau sy'n fasnachol hyfyw. Nid yw cynnwys y sector preifat yn orfodol, ond fe'i hanogir.

### Ariannu'r diffyg cadwraeth

Bydd ceisiadau am grantiau drwy'r rhaglen Menter Treftadaeth yn cael eu hystyried ar sail y diffyg cadwraeth yn unig ac nid ar anallu'r ymgeisydd i ariannu cynllun sy'n fasnachol hyfyw. Bydd angen i chi roi syniad o'r diffyg cadwraeth drwy gyflwyno gwybodaeth o **werthusiad hyfywedd** yn eich cais cyfnod datblygu (rownd-gyntaf). Yna bydd y diffyg cadwraeth yn cael ei gyfrifo drwy baratoi **gwerthusiad datblygiad**, ar ôl dyfarnu caniatâd yn y cyfnod-datblygu.

Fe'ch cynghorir yn gryf i geisio cymorth proffesiynol gan brisiwr cofrestredig RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) neu'ch partner masnachol i baratoi eich gwerthusiadau hyfywedd a datblygiad.

Gallwch wneud cais i ni am grant **i helpu i baratoi'r gwerthusiad hyfywedd** cyn i chi wneud cais am grant Menter Treftadaeth. Gallwch gynnwys costau paratoi gwerthusiad datblygu yn eich cais yn y cyfnod-datblygu.

Fel rhan o'n proses asesu, bydd eich gwerthusiad datblygiad yn destun craffu proffesiynol er mwyn canfod a yw:

- lefel y grant a geisir yn briodol (fel y'i pennir gan y cyfrifiad diffyg cadwraeth)
- graddau enillion y datblygwr yn deg ac yn rhesymol

Byddwn yn penodi ein prisiwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ein hunain i weithio gyda'ch prisiwr datblygu chi i gytuno ar y cyfrifiad diffyg cadwraeth a swm y grant a geisir yn y cyfnod cyflawni (ail-rownd).

# Beth yw pwrpas gwerthusiadau hyfywedd a datblygiad?

Mae'r ddau yn ateb yr un diben: cyfrifo'r diffyg cadwraeth. Cânt eu cynnal ar wahanol adegau yn y broses o ymgeisio am grant.

## Gwerthusiadau hyfywedd

Mae gwerthusiad hyfywedd yn rhan o'r cais ar gyfer cam datblygu grant eich prosiect. Dylai:

- Ystyried yr opsiynau amrywiol ar gyfer defnydd terfynol cynaliadwy ar gyfer eich adeilad neu safle
- Roi syniad bras cychwynnol o gostau, gwerthoedd a maint tebygol y diffyg cadwraeth
- Ddangos bod y cais cyfnod datblygu yn dod o fewn cwmpas y rhaglen Menter Treftadaeth, a bod swm y grant y gwneir cais amdano yn briodol

## Gwerthusiadau datblygiad

Mae gwerthusiad datblygiad yn rhan o'r cais ar gyfer cam cyflawni grant eich prosiect. Dylai:

- Nodi'r defnydd terfynol arfaethedig ar gyfer yr adeilad neu'r safle, ac egluro'n glir pam mai dyma'r opsiwn gwell
- Darparu amcangyfrif manwl a llawn o gostau adeiladu, gorbenion ac enillion y datblygwr
- Nodi'n glir werth marchnad y datblygiad ar ôl ei gwblhau, ac felly faint o grant sydd ei angen mewn gwirionedd i dalu am y diffyg cadwraeth

Bydd prisiwr a rheolwr buddsoddi Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cadarnhau a yw swm y grant y gwnaed cais amdano yn eich cais cyfnod-cyflawni yn briodol, ar sail y wybodaeth yn eich gwerthusiad datblygiad.

# Pam fod gwerthusiadau hyfywedd a datblygiad yn bwysig

Mae gwerthusiadau hyfywedd a datblygiad yn rhan allweddol o'r broses cynllunio busnes i chi (yr ymgeisydd am grant) a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol fel cyllidwr. Ar eu mwyaf sylfaenol, maent yn gyfrifiad llif arian sy'n ystyried yr holl wariant ac incwm yn y broses ddatblygu er mwyn nodi'r diffyg cadwraeth. Ac eto gallant fod yn llawer mwy na chyfrifiad.

Gall y wybodaeth mewn gwerthusiadau hyfywedd a datblygiad eich helpu i:

## Gynllunio a rheoli eich prosiect

Mae gwerthusiadau a phriswyr wrth wraidd cynllunio busnes a phrosiect da. Ni ddylid ystyried gwerthusiad fel gweithgaredd ‘ticio blwch’ yn y broses o gael grant. Mae'n cofnodi'ch holl syniadau a thybiaethau wrth wneud cais am grant. Mae hefyd yn eich galluogi i gadw golwg o'r dechrau, rhoi eich rhagdybiaethau a gwahanol sefyllfaoedd ar brawf, newid amcangyfrifon yn symiau gwirioneddol, a dysgu o'r broses o newid ac addasu i amgylchiadau. Mae gwerthusiad hefyd yn arf hanfodol ar gyfer rheoli prosiectau hyd at ddiweddglo llwyddiannus, yn enwedig pan fo amgylchiadau, costau a newidynnau allweddol eraill yn dechrau newid - fel sy'n digwydd yn aml.

## Nodi costau'r prosiect

Nid yw'n hawdd rhagweld costau treftadaeth gydag unrhyw sicrwydd, ond os ydych yn deall y costau atgyweirio a datblygu'n llawn ar y dechrau, mae gwell siawns gennych o ragweld yr angen ariannol a sicrhau bod eich prosiect yn fasnachol hyfyw.

### Godi cyllid

Gan mai dim ond i helpu i ariannu'r diffyg cadwraeth y mae eich grant Menter Treftadaeth wedi'i gynllunio, mae'n debygol y bydd angen i chi godi arian o ffynonellau eraill i gyflawni a chwblhau eich prosiect. Drwy nodi costau a gwerth terfynol eich prosiect yn glir, a thrwy ddangos ei hyfywedd masnachol, gall gwerthusiadau o ansawdd da eich helpu i wneud cais llwyddiannus am fenthyciadau/grantiau o ffynonellau eraill.

### Gwblhau eich ffurflenni cais Menter Treftadaeth

Bydd eich gwerthusiadau yn eich helpu i gynhyrchu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch i gwblhau eich ceisiadau yn y cyfnod datblygu a darparu. Er enghraifft, wrth feddwl am yr opsiynau ar gyfer defnydd terfynol eich adeilad neu safle, byddwch yn asesu sut y byddant yn cyflawni o ran egwyddorion buddsoddi Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## Dod o hyd i'r prisiwr datblygiad cywir

Rhaid i briswyr datblygiad allu edrych y tu hwnt i niferoedd crai gwerthusiadau a'r ddau bwynt yng nghylchred y prosiect pan fydd rhaid i chi gyflwyno'ch gwerthusiadau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Rhaid i'ch prisiwr datblygiad hefyd allu:

- deall a dehongli cymhlethdod yr hyn sydd wedi'i gynnwys yng 'nghanlyniad' y gwerthusiad
- cyfathrebu i chi (y cleient, a'ch partneriaid a rhanddeiliaid) oblygiadau 'canlyniad' y gwerthusiad, ac awgrymu'r camau gweithredu sydd eu hangen i sicrhau bod y prosiect yn hyfyw ac yn parhau i fod yn hyfyw
- troi 'canlyniad' y gwerthusiad yn argymhelliad clir i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ar swm y grant sydd ei angen
- negodi a chyfathrebu â phrisiwr a rheolwr buddsoddi Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ar eich rhan

Mae'n hynod bwysig eich bod yn penodi'r person cywir i baratoi'r gwerthusiad ar eich cyfer. Am ragor o wybodaeth, gweler Awgrymiadau ar recriwtio prisiwr datblygiad (adran 10).

## Rôl prisiwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol

Bydd prisiwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn:

- archwilio a dilysu'r gwerthusiad datblygiad a gyflwynwyd gennych chi
- gwneud argymhellion i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ynghylch dyfarnu'r grant, yn llawn neu'n rhannol
- cynghori Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol a ddylai'r dyfarniad fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau

Nid yw arfarnwyr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn gyfrifol am wneud y gwerthusiad ar eich rhan, ond bydd ganddynt rôl fel galluogwyr 'llawysgafn'. Byddant am sicrhau eich bod chi a'ch cynghorwyr

wedi mabwysiadu methodoleg gwerthusiad datblygiad sy'n briodol i raddfa a math eich prosiect.

# Paratoi eich gwerthusiadau hyfywedd a datblygiad

Mae'r canllaw cais Menter Treftadaeth yn darparu canllaw cam wrth gam clir i'r broses o wneud cais ac yn cyflwyno trosolwg o'r wybodaeth sydd ei hangen yn y gwerthusiadau hyfywedd a datblygiad.

Mae'r canllaw yn cynnwys templed (adran 9) ar gyfer y gwerthusiad hyfywedd a'r gwerthusiad datblygiad sy'n nodi strwythur pob adroddiad. Mae'n egluro'r hyn y dylid ei gynnwys ym mhob adran a sut i gael y wybodaeth sydd ei hangen.

Dylai eich gwerthusiad datblygiad ddilyn yr un templed sylfaenol â'ch gwerthusiad hyfywedd ond yn llawer mwy manwl. Mae'r adrannau isod yn amlygu rhai cwestiynau allweddol y dylech feddwl amdanynt wrth gwblhau eich gwerthusiad datblygiad.

Eich nod yw helpu prisiwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i wneud dyfarniad cadarn ar gryfder a hygrededd eich sefydliad, eich gwerthusiad datblygiad, a'ch cais cyfnod cyflawni.

Wrth baratoi eich gwerthusiad datblygiad, cofiwch ei fod yn fwy na chyfrifiad yn unig. Mae'n rhan o'r broses o ‘ddweud stori’ y prosiect. Mae ein canllaw gwerthuso yn cynnwys adrannau defnyddiol sy'n berthnasol i'r ddau gam cynllunio prosiect, yn ogystal â gwerthuso eich prosiect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

# Gwneud y gwerthusiad datblygiad

Mae'r enghraifft yn Atodiad 1 o'r canllaw cais Menter Treftadaeth yn dangos hanfodion dull gwerthuso gweddilliol o gyfrifo. Bydd y dull hwn yn rhoi ‘canlyniad’ i chi a fydd yn dweud wrthych a all y prosiect adennill costau neu well, neu wneud colled. Os yw’n golled, daw'r grant Menter Treftadaeth i rym i wneud iawn am y golled (h.y. ariannu'r diffyg cadwraeth).

Bydd eich prisiwr datblygiad eich hun yn eich cynghori ar unrhyw dechnegau gwerthuso eraill y gallai fod angen arnoch, ond fel arfer gallech strwythuro eich gwerthusiad cynllunio a datblygu prosiect eich hun gan ddefnyddio'r elfennau canlynol:

## Dadansoddiad opsiynau / Gwerthusiad o'r effaith economaidd

Yn y gwerthusiad hyfywedd, gofynnir i chi ddangos eich bod wedi ystyried ystod o opsiynau ac wedi dewis yr un a fydd yn sicrhau'r defnydd hyfywedd gorau posibl sy'n briodol ar gyfer yr ased treftadaeth dan sylw. Yn ystod y cam gwerthusiad datblygiad manylach, mae angen ailedrych ar y broses hon i sicrhau bod eich rhagdybiaethau cynnar am wahanol opsiynau posibl yn dal yn ddilys. Ai yw ffordd ddewisol o gyflawni'r prosiect yn dal i fod yr un iawn, neu a ddylid ystyried dewisiadau eraill newydd nawr hefyd?

## Y dull dadansoddi opsiynau

Gall hyn fod yn eithaf syml neu'n gymhleth iawn. Bydd angen i'ch prisiwr datblygiad, mewn ymgynghoriad â phrisiwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ddweud wrthych ba mor fanwl y dylai'r dadansoddiad opsiynau fod (yn dibynnu ar faint a chymhlethdod eich prosiect) ac a oes nifer digonol o ddewisiadau amgen gwirioneddol arwyddocaol a ddylai gael eu profi.

## Prif bwrpas y dadansoddiad o opsiynau

Dylai hyn gymharu dewisiadau amgen (gan edrych ar uchafswm o dri opsiwn yn fanwl) a phenderfynu pa un sydd fwyaf tebygol o:

- gyflawni'r canlyniadau dymunol – effeithiau ansoddol fel arfer
- gyflawni'r allbynnau gofynnol – canlyniadau mesuradwy fel arfer
- sicrhau bod cost y prosiect yn fforddiadwy ac yn cael ei ystyried yn werth da i gymdeithas yn gyffredinol

Bydd hyn yn berthnasol ar gyfer gwerthusiadau syml a chymhleth.

## Yr hyn mae prisiwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol eisiau ei weld

Bydd prisiwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol am gael ei argyhoeddi y bod proses gadarn wedi arwain at achos ystyriol dros ddewis yr opsiwn gwell, sydd hefyd yn cael cefnogaeth gan bartneriaid y prosiect a’u rhanddeiliaid. Dylai eich dadansoddiad opsiynau:

- anelu at edrych ar bob agwedd ar y prosiect yn systematig ac yn gynhwysfawr, ar gyfer yr opsiwn sydd well gennych ac unrhyw opsiynau y byddwch yn penderfynu eu dileu
- ddarparu proses ar gyfer ymgysylltu â'r holl bobl allweddol sy'n ymwneud â phrosiect, wrth wneud eu barn am bwysigrwydd cymharol un opsiwn dros y llall
- gael ei ddefnyddio i ddod â rhanddeiliaid ynghyd a, gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y dadansoddiad, dylai eich helpu i ddod i gonsensws neu gytundeb mwyafrifol, neu addasu'r prosiect i gynnwys gwahanol flaenoriaethau ac amcanion

## Gwerthusiad effaith economaidd

Byddwn am asesu effaith economaidd eich prosiect i amcangyfrif ei gyfraniad at dwf economaidd lleol. I gyflawni hyn, bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth sylfaenol benodol fel y nodir yn Adran 4 o'r templed isod. Bydd angen i chi ystyried a yw canlyniadau economaidd eich prosiect yn **ychwanegol** (yn arwain at weithgarwch economaidd newydd) neu'n ganlyniad o **ddadleoli** (wedi symud o ran arall o'r dref/dinas) neu **bwysau marw** (byddai wedi digwydd naill ffordd, waeth beth fo prosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol).

Fel rhan o'ch ymgynghoriadau lleol, dylech fod mewn cysylltiad â phobl fusnes lleol. Siaradwch â nhw am eu cynnydd, er enghraifft:

- Trosiant busnes
- Nifer yr ymwelwyr sy'n mynd heibio eu hadeiladau busnes
- Ystod nwyddau a gwasanaethau y maent yn eu darparu
- Nifer y bobl y maent yn eu cyflogi

Nodwch y rhain, a thrafodwch gyda'r busnesau lleol, naill ai'n unigol neu ar y cyd, pa fath o newidiadau y gallent ddychmygu yn digwydd o ganlyniad i'ch prosiect. Gall rhai o'r rhain fod yn fanwl gywir a meintiol; gall eraill fod yn fwy goddrychol ac ansoddol. Mae'r ddau yn dda a gellir eu hysgrifennu fel stori o'r hyn rydych chi'n gobeithio fydd yn digwydd.

Gallech hefyd gynnwys busnesau a allai ddod yn gyflenwyr gwasanaethau sylweddol i'r datblygiad gorffenedig.

Yna gallwch ailedrych ar eich stori, wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, fel rhan o'r gwerthusiad parhaus ac ar ôl cwblhau'r prosiect. Dylid cofnodi straeon unigol am newid busnes a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt, oherwydd gall y weithred o gyhoeddi hefyd fod yn ysgogiad ar gyfer mwy o fuddsoddiad a gweithgaredd busnes. Mae ein canllaw gwerthuso yn cynnwys adrannau defnyddiol ar bwy i ofyn, sut i ofyn, a pha fath o gwestiynau i'w

gofyn.

## Sector preifat - gwerthusiad buddsoddiad/llif arian gostyngol

Bydd angen i'ch prisiwr gyfrifo gwerth unrhyw ran o'r cynllun sy'n cynhyrchu rhent neu incwm arall i weld faint o gyllid preifat y gellir ei gynnwys yn y prosiect, cyn i chi allu cyfrifo'r diffyg cadwraeth a maint y grant y bydd ei angen arnoch.

Efallai y bydd eich prisiwr yn defnyddio prisiad buddsoddiad yn seiliedig ar yr incwm rhent a ragwelir, cryfder ariannol y defnyddiwr a hyd y brydles yn seiliedig ar gyfraddau marchnad tebyg lle cynigir prydlesu'r adeilad i un neu fwy o feddianwyr. Dylai prisiad y farchnad gydymffurfio â Phrisiad RICS – Safonau Proffesiynol (y 'Llyfr Coch').

Fel arall, efallai y bydd angen llif arian gostyngol o gostau perthnasol ac incwm o wasanaethau i ddangos y gwerth buddsoddi a grëwyd. Dylai hyn gynnwys:

- **costau perthnasol –** er enghraifft costau arferol sy'n cael eu hystyried yn briodol i'r math o ddefnydd, cytundebau defnyddwyr, gweithgarwch gwasanaeth, costau rheoli, cynnal a chadw a chronfeydd ad-dalu
- **incwm perthnasol –** er enghraifft o werthiannau, trwyddedau, archebion

Er bod y contract rhyngoch chi a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn para am 10 mlynedd, ni ddylai'r cyfnod prisio gael ei gyfyngu i hyd y contract.

Mae'r ddwy gost 'ychwanegol' ganlynol yn cael eu hychwanegu at gyfanswm y costau cyflawni ar ôl cyfrifo'r diffyg cadwraeth, ond **cyn** cyfrifo maint y grant Menter Treftadaeth (h.y. ni ddylai fod unrhyw effaith net ar y prisiad):

- Caniateir **costau rheoli a chynnal a chadw uwch**fel grant ar gyfer y blynyddoedd cyntaf o feddiannaeth, hyd at uchafswm o bum mlynedd.
- Caniateir **costau gweithgarwch** fel grant am gyfnod contract Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## Costau oesgyfan

Bydd angen cyfrifo costau rheoli a chynnal a chadw'r adeilad yn y dyfodol, am y cyfnod o bum mlynedd pan fydd modd rhoi cyfrif am unrhyw gostau rheoli a chynnal a chadw uwch yn y dyfarniad grant ac am y tymor hir iawn. Bydd angen atgyweirio ac adnewyddu prif elfennau'r adeilad. Mae'n debyg y bydd gan adeiladau hanesyddol ddyfodol mwy cymhleth, felly mae hyn yn arbennig o bwysig i chi.

Efallai y bydd angen i chi wneud asesiad pwrpasol ar gyfer eich adeilad, gydag arbenigwr, yn hytrach na dibynnu ar fodelau ariannol safonol. Bydd hyn yn rhan bwysig o Ddogfen Ategol 32 - Y **cynllun rheoli a chynnal a chadw**, yn ogystal â darparu gwybodaeth ar gyfer Dogfen Ategol 21 - **Rhagolygon incwm a gwariant** am y pum mlynedd gyntaf a/neu Ddogfen Ategol 33, Y **cynllun busnes prosiect** ar gyfer ceisiadau grant dros £2m.

Pan fydd adeilad yn cael ei brydlesu, bydd angen i'r cynllun rheoli a chynnal a chadw nodi'n glir pwy fydd yn gyfrifol am drefnu atgyweiriadau a chynnal a chadw a sut bydd y costau'n cael eu talu – y perchennog (drwy dâl gwasanaeth) neu'r tenant (os caiff ei brydlesu ar sail atgyweirio llawn).

## Diffyg cadwraeth a chyfrifo grant Menter

Dylech ddilyn y cyfrifiad sampl yn y canllaw cais Menter Treftadaeth fel y templed ar gyfer cyfrifo'r diffyg cadwraeth. Dylech sicrhau eich bod yn gyfarwydd â chostau prosiect y gall Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol eu talu. Mae'r canllawiau'n disgrifio'r gwahanol gategorïau cost ond nid yw'n diffinio safonau na chwmpas yr holl gostau. Maent yn parhau i fod yn fater o farn i'r ymgeisydd a'i dîm proffesiynol, yn ogystal ag i'r prisiwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Ond at ddibenion y rhaglen Menter Treftadaeth, dylid tybio bod Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn diffinio costau prosiect rhesymol i gynnwys yr holl waith atgyweirio a datblygu hyd at ffitiad sylfaenol.

Rhaid i gostau rhesymol ymwneud â'r prif amcan o wneud yr hyn sy'n angenrheidiol i adfer a diogelu'r dreftadaeth ac i gyflawni canlyniadau'r prosiect a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Yn benodol:

- Gwaith atgyweirio a chadwraeth, a all gynnwys costau gwaith atgyweirio, adfer nodweddion pensaernïol coll, neu warchod ffabrig yr adeilad treftadaeth a'i leoliad (ond nid yw'n cynnwys ffitiadau ac offer).
- Gwaith adeiladu, offer a deunyddiau newydd, a all gynnwys costau ffitiadau a chyfarpar sylfaenol i wneud adeilad yn ddefnyddiadwy ac yn werthadwy. Dylai hyn ganolbwyntio ar greu gwerth a defnyddio a rheoli'r adeilad yn gost-effeithiol i gefnogi'r gweithgareddau sy'n cyfiawnhau'r buddsoddiad masnachol, a chymorth grant i'r dreftadaeth.

Mewn rhai marchnadoedd, cydnabyddir y gallai fod yn rhaid i ffitiadau ac offer sylfaenol fod yn fwy helaeth er mwyn denu a chadw meddianwyr a thrwy hynny wneud y mwyaf o botensial datblygiad economaidd y prosiect. Bydd angen i chi ddangos sut rydych wedi cyrraedd y cydbwysedd cywir rhwng costau y dylai'r deiliad eu talu a'r diffyg cadwraeth.

Bydd angen nodi swm y cynnydd yng ngwerth yr ased treftadaeth cyn ac ar ôl cwblhau'r prosiect fel cyfraniad arian parod a chofnod ar wahân yn y tabl ariannu ar eich ffurflen gais (Tabl 6g Incwm cyfnod cyflawni).

# Cwblhau'r gwerthusiad datblygiad

Dylai'r gwerthusiad gynnwys y pedair elfen a ddisgrifir uchod. Lle darperir gwybodaeth gefndir fanylach yn y dogfennau ategol, dylid cyfeirio'n glir atynt i helpu prisiwr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth ategol sydd ei hangen.

Fel Dogfen Ategol 1, mae'r arfarniad datblygu yn defnyddio dogfennau ategol eraill ar gyfer mewnbynnau allweddol, gan gynnwys:

- Amserlen y prosiect
- Rhagolwg llif arian
- Incwm a gwariant am y pum mlynedd gyntaf
- Taenlen costau'r prosiect
- Cyfrifiad adennill costau llawn
- Cynllun busnes y prosiect (ar gyfer ceisiadau grant dros £2m)

Dylid cyflwyno testun esboniadol gyda'r diffyg cadwraeth a'r cyfrifiad grant Menter Treftadaeth er mwyn sicrhau bod gan werthuswr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol ddarlun llawn o'r prosiect. Mae hyn er mwyn gallu gwneud argymhelliad am grant gyda chyn lleied â phosibl o ymchwiliad ychwanegol a heb ofyn i chi am ragor o wybodaeth ac eglurhad.

# Templed gwerthusiad hyfywedd a datblygiad

Mae'r templed hwn yn seiliedig ar Ganllawiau Grant Hyfywedd Prosiect a gynhyrchwyd gan y Gronfa Treftadaeth Bensaernïol www.ahfund.org.uk. Mae'n defnyddio'r un iaith ac yn rhestru'r un gofynion, ond yn wahanol pan fydd angen gwybodaeth ychwanegol i gefnogi cais am grant Menter Dreftadaeth.

Ni ddylai adroddiad gwerthusiad hyfywedd fod yn fwy nag wyth tudalen A4 (heb gynnwys atodiadau) mewn maint ffont safonol. Mae gwerthusiad datblygiad yn debygol o fod yn llawer hirach gan y bydd yn cynnwys mwy o fanylion am eich prosiect.

## Adran 1 – Cefndir

### Gwerthusiad hyfywedd a gwerthusiad datblygiad

1. Enw'r sefydliad
2. Rhif/enw'r adeilad, cyfeiriad yr adeilad, cod post
3. Crynodeb byr o arwyddocâd y dreftadaeth, h.y. pwysigrwydd hanesyddol a phensaernïol yr adeilad. Ni ddylai hwn fod yn ddarn hir o waith: dim ond eitemau perthnasol a phwysig sy'n ychwanegol at y rhestriad statudol a allai fod o ddiddordeb.
4. Sut mae eich sefydliad yn cymryd rhan yn y prosiect. Er enghraifft, a gysylltodd cyngor lleol neu gr?p partneriaeth â chi ynghylch yr adeilad? A ffurfiodd eich sefydliad yn benodol i achub yr adeilad? A oes gan eich sefydliad amcanion eraill a fyddai'n cael eu hyrwyddo drwy ymgymryd â'r adeilad?
5. Unrhyw weithgareddau arwyddocaol rydych eisoes wedi'u cyflawni a manylion unrhyw ymdrechion blaenorol i ailddefnyddio'r adeilad. Er enghraifft, a ydych chi wedi cynnal unrhyw weithgareddau codi cyhoeddusrwydd fel Diwrnod Agored Drysau neu gyfarfodydd cymunedol? A wyddoch chi am ymdrechion blaenorol i adfer yr adeilad? Beth oedden nhw; ydych chi'n gwybod pam eu bod wedi methu?
6. Pam fod yr adeilad mewn perygl a pham nawr yw'r amser i fynd i'r afael â'r adeilad. Eglurwch pam fod yr adeilad mewn perygl boed oherwydd problemau swyddogaethol, strwythurol, ariannol a/neu broblemau eraill. Hefyd, eglurwch pam mai nawr yw'r amser i fynd i'r afael â'r adeilad: a yw'r risg yn hollbwysig, a oes cyllid ar gael, a fyddai'n ategu prosiect arall?
7. Pwy yw'r perchennog? (gwerthusiad hyfywedd) / darparu cadarnhad perchnogaeth (gwerthusiad datblygiad)
8. Beth yw'r rhagolygon ar gyfer caffael rhydd-ddaliad neu lesddaliad hir? (gwerthusiad hyfywedd yn unig)
9. Os mai chi yw'r perchennog, ers pryd ydych chi wedi bod yn berchen ar yr adeilad a pham nad yw'r angen i newid defnydd wedi'i ddilyn cyn nawr?

## Adran 2 - Cyflwr yr adeilad

### Gwerthusiad hyfywedd

1. Crynodeb byr iawn o gyflwr yr adeilad. Gall fod yn ddefnyddiol rhoi brawddeg yn crynhoi'r cyflwr e.e. ‘Mae'r adeilad yn anniogel ac yn cynrychioli perygl gwirioneddol a phresennol i ddiogelwch y cyhoedd’, neu ‘Mae strwythur yr adeilad yn gadarn ond mae angen gwneud gwaith helaeth i fyw ynddo’ ac ati. Dylid rhoi unrhyw wybodaeth bellach mewn atodiad.
2. Rhestr o unrhyw atgyweiriadau sydd eu hangen ar unwaith i wneud yr adeilad yn ddiogel rhag gwynt a d?r. Dylai hon fod yn rhestr syml o'r atgyweiriadau sydd eu hangen ar lefel uchaf, nid disgrifiad o bob eitem. Gellir rhoi manylion mewn atodiad.
3. Costau bras yr atgyweiriadau a amlinellwyd uchod.

### Gwerthusiad datblygiad

1. Asesiad manylach o gyflwr yr adeilad wedi'i ddiweddaru o unrhyw waith arolygu pellach a wnaed yn ystod eich cyfnod datblygu grant.
2. Nodwch yn fanwl gwmpas y gwaith sydd ei angen i fynd i'r afael ag anghenion atgyweirio a chadwraeth yr adeilad a/neu'r safle. Rhowch ddisgrifiad o unrhyw waith sefydlogi brys a wnaed yn ystod eich cyfnod datblygu.
3. Costau manwl yr anghenion atgyweirio a chadwraeth a nodir uchod.

## Adran 3 - Y sefyllfa a'r cyd-destun cynllunio

**Gwerthusiad hyfywedd a gwerthusiad datblygiad**

Gall yr adran hon fod yn debyg i ddisgrifiad gwerthwr tai o'r ardal, ond gyda'r nod o berswadio cyllidwyr y gall y prosiect fod yn llwyddiannus. Dylech ddisgrifio pethau fel:

- Ydy'r adeilad yn ynysig neu ar stryd fawr brysur?
- A oes mannau parcio gerllaw, gorsaf drenau, neu fynediad at fysiau?
- Ai amaethyddol, preswyl, manwerthu, swyddfeydd neu ddiwydiannol yw'r ardal yn bennaf?
- A yw tai neu fusnesau cyfagos yn cael eu meddiannu ac yn cael eu defnyddio?
- A oes gan yr adeilad broblemau mynediad? A fyddai angen cynllun ffordd newydd?

Darganfyddwch beth yw'r defnydd dynodedig presennol ar gyfer yr adeilad/ardal. A oes cynllun lleol? Dylech hefyd gadw llygad am ddogfennau eraill fel cynlluniau gweithredu ardal, dogfennau cynllun datblygu a dogfennau cynllunio atodol, prif gynlluniau a chynlluniau rheoli ardaloedd cadwraeth. Mae'r rhain ar gael fel arfer yn eich swyddfa gynllunio leol. Nodwch beth mae'r cynlluniau yn ei olygu i'ch prosiect - peidiwch â dyfynnu darnau gair am air. Rhowch y rhain yn yr atodiadau os ydych yn meddwl eu bod yn angenrheidiol.

**Gwerthusiad hyfywedd**

Beth yw barn y corff treftadaeth priodol (awdurdod cynllunio lleol, Historic England, Cadw, Historic Environment Scotland, Asiantaeth Amgylchedd Gogledd Iwerddon, a'r cymdeithasau amwynder lle bo'n berthnasol) ar ddull o atgyweirio a thrawsnewid?

Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi, yn dibynnu ar y defnyddiau rydych yn eu cynnig, i siarad â swyddogion y cyngor, cymdeithasau tai lleol, gwerthwyr tai, cwmnïau lleol ac ati.

**Gwerthusiad datblygiad**

Rhowch amserlen ar gyfer cael unrhyw ganiatad angenrheidiol. Cadarnhewch fod sgyrsiau rhagarweiniol wedi'u cynnal gyda'r cyrff cynllunio/treftadaeth angenrheidiol a bod cefnogaeth gyffredinol i'ch cynigion. Rhowch unrhyw ddogfennaeth berthnasol (e.e. gohebiaeth yn cadarnhau cefnogaeth mewn egwyddor) yn yr atodiadau.

Diweddarwch yn unol ag unrhyw ymgynghoriad pellach a gynhaliwyd gennych yn ystod eich cyfnod datblygu grant.

## Adran 4 - Opsiynau ar gyfer defnydd (gan ganolbwyntio ar angen a chynaliadwyedd hirdymor)

**Gwerthusiad hyfywedd**

Dim ond tri opsiwn ar y mwyaf y dylech chi eu hystyried yn fanwl (peidiwch â chynnwys opsiwn ‘gwneud dim’). Rhestrwch opsiynau eraill os ydych chi wedi eu hystyried ond wedi eu gwrthod am resymau amlwg. Dylai'r adran ar gyfer pob defnydd gynnwys yr elfennau canlynol:

A. Beth yw'r defnydd posibl. Os yw'r defnydd yn rhywbeth fel neuadd gymunedol, nodwch pa fath o weithgareddau fyddai'n digwydd. Os mai preswyl yw'r prif ddefnydd, dywedwch wrthym os bydd yn dai cymdeithasol a/neu'n cael eu harwain gan y gymuned a nifer yr unedau rydych yn eu cynnig. Nodwch pwy fyddai defnyddwyr terfynol a/neu berchnogion yr adeilad. Rhowch wybod i ni sut y bydd yr adeilad yn cael ei reoli.

B. Disgrifiad byr o'r gwaith neu ymyriadau y byddai'n rhaid eu gwneud i'r adeilad i alluogi'r defnydd.

C. Cost y prosiect: cost fras y gwaith a'r ymyriadau sydd eu hangen

D. Trafodaeth o fanteision ac anfanteision y prosiect; rhaid i'r rhain ddangos tystiolaeth o'r angen am y defnydd a sut y bydd y defnydd yn gynaliadwy yn y tymor hir. Enghreifftiau o'r materion y gallwch roi sylw iddynt:

- A oes galw yn yr ardal (tystiolaeth o ymchwil marchnad, gwaith ymgysylltu cymunedol, barn arbenigwyr lleol, llythyrau papur newydd, ymgyrchoedd ac ati)?
- A yw prosiectau tebyg wedi mynd i'r wal yn ddiweddar? Pam? Sut mae'ch un chi yn wahanol?
- A oes defnyddiau tebyg yn yr ardal yn barod? Os hynny, faint a pha mor bell i ffwrdd? Beth sy'n wahanol am eich prosiect arfaethedig chi?
- Ydy fflatiau'n gwerthu yn yr ardal, faint yw'r rhent tebyg ar gyfer gofod swyddfa ac ati?

E. Nodwch ganlyniadau ac allbynnau datblygu economaidd yr opsiwn gorau. Amcangyfrif:

- faint o arwynebedd llawr sydd i ddod yn ôl i ddefnydd a faint o arwynebedd llawr ychwanegol sydd i'w greu (arwynebedd llawr mewnol gros/m2) a pha fath o ddefnydd busnes a ragwelir
- a yw canlyniadau ac allbynnau datblygu economaidd yn debygol o gael eu hychwanegu, neu o ganlyniad i ddadleoli neu bwysau marw
- nifer y swyddi CALl a fydd yn cael eu creu yn ystod y cyfnod adeiladu, yn y busnesau (gan gynnwys tai) sy'n meddiannu'r datblygiad gorffenedig, ac ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad/safle yn hirdymor
- nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â threftadaeth yr adeilad/safle.

**Gwerthusiad datblygiad**

Diweddariad gyda dadansoddiad manwl o'r opsiynau posibl, gan gynnwys ystyriaeth fwy trylwyr o gostau'r prosiect, y cyfle a'r galw am egwyddorion ac allbynnau buddsoddi mewn prosiectau, a gwerth marchnad y datblygiad ar ôl iddo gael ei gwblhau. Dylai'r adran hon nodi'r opsiwn gorau .

Cwblhewch werthusiad o'r effaith economaidd ar ôl siarad â busnesau lleol ac asesu'r effaith y bydd eich prosiect yn ei chael ar y farchnad economaidd leol.

Nodwch sut y bydd yr opsiwn gorau yn cyflawni canlyniadau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol gan ganolbwyntio ar y rhai a fydd yn cael eu cyflawni'n gryf.

## Adran 5 - cyfrifiad diffyg cadwraeth

**Gwerthusiad hyfywedd**

Dyma ran bwysicaf eich gwerthusiad gan y bydd y cyfrifiad diffyg cadwraeth yn pennu swm y grant y gallwch wneud cais amdano.

Dilynwch y templed yn yr Arweiniad Cais Menter Treftadaeth (Gwerthusiadau datblygiad) gan nodi'n glir:

Amlinelliad o gostau atgyweirio ac addasu (fel y cyfeirir ato uchod).
Amcangyfrif rhesymol o werth marchnad yr ased treftadaeth cyn ac ar ôl cwblhau'r prosiect (wedi'i baratoi gan brisiwr cymwys RICS).

Os yw eich prosiect yn ymwneud â chaffael adeilad neu safle treftadaeth, a'ch bod yn bwriadu cynnwys cost prynu yn eich cais, mae'n bwysig iawn bod y pris caffael yn adlewyrchu gwerth marchnadol y safle treftadaeth ar adeg ei brynu.

Dylai'r adran hon gynnwys digon o wybodaeth i wneud achos argyhoeddiadol dros ddiffyg cadwraeth a'r angen am grant. Er nad oes angen cyfrifiadau cost manwl ar hyn o bryd, mae'n bwysig iawn sicrhau eich bod wedi darparu amcangyfrifon rhesymol. Bydd costau a gwerthoedd yn cael eu mireinio yn eich templed gwerthusiad datblygiad, ond ni ddylai'r cyfrifiad diffyg cadwraeth cyffredinol, ac felly swm y grant y gofynnir amdano gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, wahaniaethu'n sylweddol rhwng y ceisiadau cyfnod-datblygu a -chyflawni.

**Gwerthusiad datblygiad**

Rhowch ddadansoddiad manwl o gostau'r prosiect (wedi'i gyflwyno fel taenlen ar wahân).

Nodwch gostau adeiladu, prisiadau, pris caffael, ffioedd proffesiynol, costau prosiect eraill (e.e. costau cyllid), costau cynnal a chadw adeiladau oes-gyfan ac ati.

Gellir cynnwys elw datblygwr o hyd at 15% o gyfanswm cost cyflawni'r prosiect. Cofiwch gyfiawnhau'r ganran a geisir mewn perthynas â risg cyffredinol y prosiect.

Peidiwch â chynnwys costau gweithgaredd a chostau rheoli a chynnal a chadw uwch ar gyfer y pum mlynedd gyntaf (os gwneir cais amdano fel cost 'ychwanegol' fel rhan o'r grant).

Rhowch brisiad marchnad o'r ased treftadaeth cyn ac ar ôl cwblhau'r prosiect, wedi'i gymryd o o leiaf un adroddiad prisio, a baratowyd yn unol â Phrisiad RICS - Safonau Proffesiynol (y "Llyfr Coch"). Rhowch yr adroddiad prisio yn yr atodiadau.

Dylai'r cyfrifiad diffyg cadwraeth ddilyn y dull prisio gweddilliol a nodir yn Atodiad 1 o'r canllawiau cais Menter Treftadaeth. Dylai'r ffigurau fod yn gadarn a dylent wrthsefyll craffu gan werthuswr Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Sylwch **gallai eich cais cyfnod cyflawni gael ei beryglu os yw swm y grant y gofynnwyd amdano yn sylweddol uwch na'r disgwyl** yn eich gwerthusiad hyfywedd a'ch cais cyfnod datblygu (a lle nad oes unrhyw gyfiawnhad rhesymol dros y cynnydd).

## Adran 6 – Casgliad

**Gwerthusiad hyfywedd**

Pa opsiwn sydd well a pham? Er enghraifft, ai'r dewis gorau yw'r gwerth gorau am arian? A yw'n bodloni'r rhan fwyaf o feini prawf darpar gyllidwyr? Sut mae'n gynaliadwy?

Dangoswch ddadansoddiad o gostau, cyllidwyr posibl, sut mae'r prosiect yn bodloni eu meini prawf a symiau ariannu posibl. Dylai elfennau'r prosiect fod yn bethau fel 'datblygiad', 'gwaith strwythurol', 'ffitio'.

**Gwerthusiad datblygiad**

Darparwch grynodeb byr yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd yn yr adrannau uchod, gan gasglu pam y bydd yr opsiwn dewisol yn llwyddo yn erbyn canlyniadau Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

Nodwch ffynonellau cyllid eraill sydd eu hangen i gwblhau'r datblygiad. Rhowch strategaeth codi arian ac amserlen os nad yw holl gyllid y prosiect wedi'i sicrhau.

## Adran 7 – Cynllun gweithredu

**Gwerthusiad hyfywedd**

Unrhyw gamau sydd eu hangen ar unwaith i ddiogelu'r adeilad, fel codi sgaffaldiau, clirio cwteri, darparu atgyweiriadau dros dro i'r to.

Eich strategaeth ar gyfer parhau â'r defnydd gorau. Sut ydych chi'n mynd i ddatblygu'r prosiect? Er enghraifft, i ba gyllidwyr ydych chi'n mynd i wneud cais a phryd?

Eich strategaeth os yw'r defnydd gorau yn profi'n anhyfyw. A oes llwybr arall os bydd y cynllun gorau yn amhosib i'w gyflawni?

**Gwerthusiad datblygiad**

Diweddarwch hwn yn ôl yr angen. Cyfeiriwch at gynllun busnes eich prosiect (os ydych yn gwneud cais am grant o fwy na £2m) neu at amserlen a llif arian eich prosiect (os yn llai na £2m). Cyfeiriwch at eich dadansoddiad risg prosiect manwl, a gyflwynwyd fel rhan o'ch cais yn y cyfnod cyflawni.

## Adran 8 – Atodiadau

**Gwerthusiad hyfywedd**

Dylai fod gan yr adran hon:

- restr o'r holl bobl yr ymgynghorwyd â nhw gyda manylion cyswllt lle bo'n berthnasol
- gwybodaeth arall sy'n berthnasol i'r prosiect sy'n dangos achos ymhellach dros y diffyg cadwraeth, yr angen am y grant a hyfywedd dilynol y prosiect
- unrhyw wybodaeth atodol arall y cyfeirir ati uchod

**Gwerthusiad datblygiad**

Rhowch yr holl ddogfennaeth y cyfeirir ati yn yr adrannau uchod.

# Cynghorion ar recriwtio prisiwr datblygiad

## Cymwysterau hanfodol

Mae hon yn rôl ymdrechgar ar gyfer uwch weithiwr proffesiynol sydd â'r profiad a'r hyder i asesu prosiectau cymhleth, proffil uchel - a allai fod yn fentrus.

Yn ddelfrydol, dylai priswyr datblygiad fod wedi eu cofrestru gyda Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) a bod â phrofiad o gynnal gwerthusiadau datblygiad ar brosiectau tebyg. Efallai y bydd gan eich partner datblygu staff â sgiliau a galluoedd perthnasol.

## Sgiliau a gallu

- **Ystod o ddulliau gweithredu –** Bydd angen i briswyr ddefnyddio ystod o fethodolegau gwerthuso sy'n asesu ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, a ffactorau ariannol ac eraill.
- **Profiad ymarferol –** Dylent ddeall y cyd-destun adfywio neu ailddatblygu y mae prosiectau'n cael eu hyrwyddo ynddo a nodau Menter Treftadaeth. Dylent fod wedi gweithio ar brosiectau tebyg yn y gorffennol.
- **Rheoli rhanddeiliaid –** Dylai priswyr datblygiad ddeall strwythur ac anghenion sefydliadau cymunedol (fel ymgeiswyr unigol neu bartneriaid), pob partneriaeth prosiect (fel sefydliadau masnachol), ac unrhyw rhanddeiliaid eraill.
- **Creadigrwydd –** Mae Menter Treftadaeth yn ceisio dod â phartneriaid cymunedol a masnachol ynghyd i ddatgloi'r creadigrwydd sy'n bodoli yn y ddau sector. Rhaid i briswyr datblygiad allu cyfrannu'n rhagweithiol at y broses hon.
- **Cyfathrebu –** Eich prisiwr fydd un o'r prif gysylltiadau cyfathrebu rhwng yr ymgeisydd am grant a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol.

## Ble gallwn ni ddod o hyd i briswyr datblygiad?

Mae Locality - y rhwydwaith ar gyfer sefydliadau a arweinir gan y gymuned - yn cefnogi rhaglen frocera i ddod â gweithwyr eiddo proffesiynol a mentrau cymunedol ynghyd.

Efallai y bydd gan eich awdurdod lleol restr o gwmnïau sydd â'r sgiliau perthnasol i wneud prisiadau a/neu werthusiadau datblygiad: www.gov.uk/find-your-local-council

Ar gyfer Priswyr Cofrestredig RICS, defnyddiwch wasanaeth chwilio ar-lein RICS 'find a surveyor' i ddod o hyd i syrfëwr: www.ricsfirms.com.

Bydd chwilio ar y we yn eich helpu i ddod o hyd i gwmnïau neu ddatblygwyr proffesiynol lleol y gallech gysylltu â nhw, gan ddefnyddio'r ddogfen hon i sicrhau eu bod yn gwybod beth rydych chi'n chwilio amdano.

## Sut i recriwtio prisiwr datblygiad

- **Tendrwch yn eang** - Ceisiwch o leiaf 3 dyfynbris cystadleuol gan wahanol sefydliadau.
- **Cyfwelwch** - Ceisiwch gwrdd ag a dod i adnabod y person a fydd yn gweithio gyda chi o ddydd i ddydd.
- **Aseswch a barnwch** - Mae'n hanfodol bod gennych hyder ynddynt, ar lefel bersonol a phroffesiynol.
- **Penodwch** - Dewiswch yr ymgeisydd rydych chi o'r farn ei fod yn deall y prosiect orau, yn parchu ei amcanion a'i ddyheadau ac y gallwch chi weithio gydag ef neu hi.

## Cwestiynau i'w gofyn i ddarpar brisiwr datblygiad

### Profiad a chymwysterau

Ydyn nhw wedi cofrestru gyda RICS? Faint o flynyddoedd o brofiad sydd ganddyn nhw fel prisiwr neu ddatblygwr cymwysedig? Mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn disgwyl o leiaf pum mlynedd o

brofiad.

Pa fathau o adeiladau maen nhw wedi gweithio arnynt? Ydyn nhw wedi gweithio ar brosiectau eraill sydd â gwerth/cyllideb sy'n debyg i'ch un chi? Ydyn nhw'n gweithio yn unigol, neu fel rhan o dîm?

**Gwybodaeth dechnegol**

A oes ganddynt brofiad personol uniongyrchol o...

- werth tir gweddilliol
- gyfrifiadau gorswm
- cyllid bwlch
- adfachu
- gwerthusiad effaith economaidd
- cost oesgyfan
- datrysiadau brocera

**Adfywio a thwf economaidd**

A oes gan y prisiwr gefndir mewn datblygu, cynllunio neu ‘greu lleoedd’? Sut y byddant yn mesur allbwn a thwf economaidd? Pa brofiad sydd ganddynt o brosiectau sy'n ceisio newid ac adfywio cymunedau lleol?

**Asesu sefydliadau a phartneriaethau**

Sut y byddant yn cefnogi'r prosiect? A allant gymryd golwg gytbwys o'r prosiect a gwneud argymhellion clir ar gyfer gwelliant a llwyddiant? A allant eich helpu i lwyddo? Sut?

**Ymwybyddiaeth a barn**

A oes gan yr ymgeisydd ‘wybodaeth am ddatblygiad’ (cyfraddau dydd ar gyfer gweithwyr proffesiynol, costau deunydd, amserlenni cywir, ac ati)? Beth fyddan nhw'n ei gyfrannu at y prosiect? A fyddant yn deg wrth ymwneud â chi a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol? A oes ganddynt y profiad a'r gallu i'ch cynghori ynghylch yr hyn sy'n realistig, yn gywir ac yn gyraeddadwy?